ISELBRISIO

Torri'r cysylltiad rhwng gofal cyflogedig a di-dâl, tlodi ac anghydraddoldebau ledled Prydain

OXFAM

PAPUR BRIFFIO OXFAM – EBRILL 2024

Mae'r papur briffio hwn yn dangos y modd y mae iselbrisio gofal cyflogedig a di-dâl yn sbarduno tlodi ac anghydraddoldebau ledled Prydain, ac mae'n amlinellu gweledigaeth drawsnewidiol ar gyfer newid.

Bob dydd, mae miliynau o bobl, menywod yn bennaf, yn darparu gofal cyflogedig a di-dâl hanfodol i blant a phobl anabl, sâl a hŷn. Ac eto, mae eu cyfraniad enfawr yn parhau i fod yn anweledig, heb ddigon o bwys arno a heb fuddsoddiad digonol ynddo gan lywodraethau.

Mae'n bryd symud i economi ofalgar ffeministaidd, lle mae pob gofal yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel lles cymdeithasol hanfodol a chyfrifoldeb ar y cyd; lle mae gofal di-dâl yn cael ei leihau a'i ailddosbarthu; lle mae gofal cyflogedig yn cael ei wobrwyo'n ddigonol; a lle mae gan bob gofalwr lais pwerus mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

© Oxfam GB Ebrill 2024

Ysgrifennwyd y papur hwn gan Silvia Galandini a Claire Spoors.

hynod o ddiolchgar i'r ymgynghorwyr arbenigol, Sara Cowan, Thalia Kidder a Nikki Van Der Gaag, a gynhaliodd ymchwil gefndir sydd wedi helpu i lywio a llunio'r adroddiad hwn. Diolch i Lucy Peers a Meroo Seth am eu gwaith dylunio a darlunio.

Hoffem hefyd ddiolch i'r cyd-weithwyr canlynol am eu cyngor, eu harweiniad a'u cymorth, a fu'n hanfodol i ddatblygiad yr adroddiad hwn: Rachel Noble, Sarah Rees, Jamie Livingstone, Hade Turkmen, Lewis Ryder-Jones, Katy Chakrabortty, Yasmin Mahboubi, Clare Coffey, Lucy Cowie, Leena Patel, Anna Marriott, Leah Mugehera, Ridhi Kalaria, Claire Arthur-Lusby a Fatema Tuz Johoora.

Yn olaf, rydym am gydnabod y gwaith hollbwysig diflino y mae cynifer o gymunedau, ymgyrchwyr, sefydliadau, clymbleidiau a mudiadau, o'r lleol i'r cenedlaethol a thu hwnt, yn ei wneud i amlygu'r iselbrisio ac anweledigrwydd gofal, ac i herio anghyfiawnder systemig i beri i newid ddigwydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y materion a godwyd yn y papur hwn, anfonwch neges e-bost at sgalandini1@oxfam.org.uk

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn, ond gellir defnyddio'r testun yn rhad ac am ddim at ddibenion eirioli, ymgyrchu, addysg, ac ymchwil, cyhyd ag y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Gofynna deiliad yr hawlfraint am i bob defnydd o'r fath gael ei gofrestru gydag ef at ddibenion asesiad o'r effaith. I'w gopïo dan unrhyw amgylchiadau eraill, neu i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu i'w gyfieithu neu ei addasu, rhaid sicrhau caniatâd, a gall tâl gael ei godi. E-bost: policyandpractice@oxfam.org.uk.

Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg.

Cyhoeddwyd gan Oxfam GB ym mis Ebrill 2024. DOI: 10.21201/2024.000016

Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Cowley, Rhydychen OX4 2JY.

Darlun y clawr: Meroo Seth

Cynnwys

Crynodeb 4

1. Cyflwyniad 6

2. Y cysylltiad cynyddol rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau 8

2.1. Realiti gofal a thlodi 9

2.2. Mae gofal na roddir gwerth arno ac sy'n anweledig yn parhau i hybu anghydraddoldebau 11

3. Prif sbardunau tlodi gofalwyr 13

3.1. Y systemau sy'n parhau i siomi gofalwyr 14

3.2. Naratifau sy'n golygu bod gofal yn parhau i gael ei iselbrisio 19

3.3. Amser i weithredu 20

4. Gweledigaeth ar gyfer newid 21

4.1. Newid polisi trawsnewidiol 22

4.2. Adrodd stori newydd am ofal 31

4.3. Symud y pŵer ar gyfer dylanwadu 31

4.4. Casgliad 32

Safbwyntiau o bob rhan o gymdeithas sifil 33

Nodiadau 38

Crynodeb

Bob dydd, mae miliynau o bobl ledled y byd a ledled Prydain yn darparu gofal hanfodol cyflogedig a di-dâl i blant yn ogystal â phobl anabl, sâl a hŷn.

“Nid yw’r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gynnyrch COVID-19 nac argyfyngau costau byw; mae’n her hirsefydlog.”

Ac eto, mae eu cyfraniad enfawr yn parhau i fod yn anweledig, heb ddigon o bwys arno a heb fuddsoddiad digonol ynddo gan lywodraethau. Mae hyn yn ei dro yn trapio llawer o bobl sy’n darparu ac yn profi gofal mewn cylch dieflig o dlodi, caledi ac allgáu cymdeithasol. Gan fod mwyafrif helaeth y gwaith gofal cyflogedig a di-dâl yn cael ei wneud gan fenywod, mae anweledigrwydd gofal yn effeithio’n anghymesur arnynt. Y rhai yr effeithir arnynt fwyaf yw menywod sy’n wynebu sawl ffurf ar anghydraddoldeb, ffurfiau sy’n aml yn gorgyffwrdd ac yn seiliedig ar ddosbarth, hil, statws mudol, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, anabledd neu hunaniaethau eraill.

Nid yw’r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gynnyrch COVID-19 nac argyfyngau costau byw; mae’n her hirsefydlog. Yn 2020, amlygwyd y mater hwn ym mhapur Oxfam GB *Make Care Count*.[1] Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae’r caledi a wynebir gan ofalwyr a’r straen ar y seilwaith gofal cyfan yn parhau i ddyfnhau – elfennau sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i’r pandemig ac yn awr yr argyfwng costau byw, a hynny ar ben blynyddoedd o galedi.

Mae’r dystiolaeth a ddarparwyd gan y sefydliadau a’r mudiadau niferus ledled Prydain sy’n eiriol dros well hawliau i ofalwyr a chydnabyddiaeth ddigonol ar gyfer gofal, yn dangos yn glir bod tlodi a chaledi yn dod yn realiti i ormod o ofalwyr cyflogedig a di-dâl.

Oherwydd costau byw cynyddol a gwasgfa ar incwm, mae’r rhai sy’n darparu gofal a chymorth di-dâl i blant a phobl anabl, sâl a hŷn yn wynebu heriau cynyddol wrth dalu am hanfodion. Yn gyffredinol, nid yw gweithwyr gofal yn cael digon o dâl o hyd ac maent yn profi ansicrwydd ac yn destun camfanteisio, tra bo’r seilwaith gofal cymdeithasol a gofal plant dan bwysau anhygoel ac yn ei chael yn anodd darparu gofal hanfodol.

Mae’r iselbrisio treiddiol a systemig mewn perthynas â gofal yn creu ac yn dyfnhau’r cysylltiad rhwng gofal a thlodi. Mae nifer o systemau allweddol yn methu o ran darparu cymorth a chydnabyddiaeth digonol i ofalwyr, a buddsoddiad hanfodol mewn pob math o ofal, elfennau sy’n tynnu mwy o bobl i dlodi a chaledi ac yn hybu anghydraddoldebau. Mae’r systemau hyn yn cynnwys diffyg cymorth i gael gwaith am dâl ac i aros ynddo yn achos y rheiny y mae ganddynt gyfrifoldebau gofalu di-dâl; system nawdd cymdeithasol annigonol; tâl ac amodau gwaith gwael i weithwyr gofal; a thanfuddsoddiad parhaus mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant.

Mae’r systemau pŵer hyn sy’n cadw gofal yn anweledig a heb gymorth yn cael eu llunio, eu sbarduno a’u cynnal gan **normau, gwerthoedd a naratifau cymdeithasol ‘cyndyn’ sylfaenol**. Mae’r rhain yn dibrisio, yn anwybyddu ac yn diystyru gofal fel ‘gwaith menywod’ sy’n llai haeddiannol o statws a gwobr ariannol.

Mae'n bryd gweld symudiad rhagweithiol yn ein hymagwedd economaidd tuag at fodel sy'n buddsoddi mewn economi gofal ffeministaidd – lle mae pob gofal, yn gyflogedig a di-dâl, yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel nwydd cymdeithasol hanfodol a chydgyfrifoldeb; lle mae gofal di-dâl yn cael ei leihau a'i ailddosbarthu; lle mae gofal cyflogedig yn cael ei wobrwyo'n ddigonol; a lle mae gan bob gofalwr lais pwerus mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Ledled Prydain, mae angen i San Steffan a llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban weithredu ar unwaith ar draws chwe maes allweddol i gatalyddu symudiad i economi ofalgar. Mae'n rhaid iddynt wneud y canlynol:

1 Diwygio'r system drethi a'i gwneud yn deg, yn ailddosbarthol ac yn flaengar i ddarparu adnoddau ar gyfer symudiad i economi ofalgar, ac i gydnabod ac ailddosbarthu'r cyfoeth sy'n cael ei greu a'i gynnal gan lafur gofalwyr di-dâl a gofalwyr nad ydynt yn cael tâl digonol.

2 Cynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith gofal, a sicrhau bod safon a hygyrchedd gwasanaethau yn cael eu blaenoriaeth dros elw.

3 Sicrhau bod gweithwyr gofal cyflogedig ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael eu talu'n deg, yn cael mynediad at gyflogaeth sefydlog ac amodau gwaith boddhaol,[2] a bod eu sgiliau'n cael eu cydnabod mewn modd priodol.

4 Atgyfnerthu'r rhwyd diogelwch nawdd cymdeithasol i bawb, gan gynnwys y rhai na allant weithio neu sy'n gorfod lleihau eu horiau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu, anableddau neu salwch.

5 Sicrhau cymorth digonol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl i'w galluogi i gael mynediad at gyflogaeth deilwng â thâl, neu i ddychwelyd i gyflogaeth o'r fath neu aros ynddi.

6 Ymrwymo i gasglu data mewn modd tryloyw ac i olrhain cynnydd o ran a yw polisïau a phenderfyniadau ar wariant yn rhoi gwerth effeithiol ar bob gofal a gofalwr ac yn buddsoddi ynddynt.

Yn Oxfam, rydym yn gweithio mewn undod a phartneriaeth â'r sefydliadau, y mudiadau, y clymbleidiau a'r ymgyrchwyr sy'n ysgogi newid yn y meysydd hyn, a hynny nid yn unig ledled Prydain ond hefyd yn fyd-eang – gan gydnabod bod rhai o'r systemau pŵer sy'n achosi i dlodi ac anghydraddoldebau barhau'n ddiddiwedd, yn eu hanfod, yr un fath ledled y byd.

Yn y pen draw, bydd ewyllys wleidyddol, ymrwymiad ac arweinyddiaeth, a newid yn y naratifau sy'n ymwneud â gofal, yn allweddol i ysgogi newid mewn polisi trawsnewidiol y mae iddo'r dyfnder a'r raddfa angenrheidiol.

Nodyn: Gan fod cylch gorchwyl Oxfam yn gyfyngedig i Brydain (Cymru, Lloegr a'r Alban), dyma ffocws yr adroddiad, ac mae'r dystiolaeth yn berthnasol i'r cenhedloedd cyfansoddol a gyflwynir pryd bynnag y mae ar gael. Mewn rhai achosion, defnyddir ystadegau ar gyfer y DU gyfan yn absenoldeb data ar gyfer Prydain yn unig.

1 Cyflwyniad

Bob dydd, mae miliynau o bobl ledled y byd a ledled Prydain yn darparu gofal hanfodol cyflogedig a di-dâl i blant yn ogystal â phobl anabl, sâl a hŷn. Nhw yw'r rhwydwaith anweledig o gefnogaeth ac empathi sy'n cynnal ein sylfeini cymdeithasol ac economaidd.

"Mae mwyafswm helaeth y gwaith gofal cyflogedig a di-dâl yn cael ei wneud gan fenywod."

Ac eto mae eu cyfraniad enfawr yn cyferbynnu'n llwyr â'r diffyg systemig o ran cydnabyddiaeth gyhoeddus a sefydliadol a buddsoddiad mewn gofal. Mae hyn yn ei dro yn trapio llawer o bobl sy'n darparu ac yn profi gofal mewn cylch dieflig o dlodi a chaledi sydd nid yn unig yn ariannol ond hefyd yn emosiynol.

Mae mwyafswm helaeth y gwaith gofal cyflogedig a di-dâl yn cael ei wneud gan fenywod – yn y DU, maent yn darparu 450 miliwn o oriau o ofal plant di-dâl yr wythnos o gymharu â'r 186 miliwn o oriau a ddarperir gan ddynion,[3] ac maent yn cynrychioli dros 80% o'r gweithwyr gofal cymdeithasol a mwy na 95% o'r gweithwyr gofal plant.[4] Felly mae anweledigrwydd gofal yn niweidio menywod mewn modd anghymesur, yn enwedig y rhai sy'n wynebu sawl ffurf ar anghydraddoldeb, ffurfiau sy'n aml yn gorgyffwrdd ac yn seiliedig ar ddosbarth, hil, statws mudol, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, anabledd neu hunaniaethau eraill.

Nid yw'r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gynnyrch COVID-19 nac argyfyngau costau byw; mae'n her hirsefydlog.

Yn 2020, cyn y pandemig, cyhoeddodd Oxfam GB *Make Care Count,*[5] sef papur i dynnu sylw at y brwydrau yr oedd llawer o ofalwyr ledled Prydain yn eu hwynebu, a'r modd yr oedd gofal digymorth, nad oedd yn cael tâl digonol, anghyfartal ac nas cydnabyddid yn trapio menywod mewn tlodi.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r caledi a wynebir gan ofalwyr a'r straen ar y seilwaith gofal cyfan yn parhau i ddyfnhau – elfennau sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig ac yn awr yr argyfwng costau byw, a hynny ar ben blynyddoedd o galedi.

Carers UK [6]

Gofalwyr di-dâl a ddywedodd eu bod wedi torri'n ôl ar hanfodion megis bwyd neu wres:



Working Families [7]

Rhieni a gofalwyr a holwyd ac a ddywedodd fod cael dau ben llinyn ynghyd a magu teulu wedi dod yn anoddach 'yn ystod y tair blynedd ddiwethaf':



Age UK a'r Care & Support Alliance [8]

Yn Lloegr, amcangyfrifir bod gan

2.6 MILIWN

o bobl dros 50 oed anghenion gofal cymdeithasol heb eu diwallu.

Coram Family and Childcare [9]

Awdurdodau lleol yn Lloegr a chanddynt ddigon o ofal plant ar gyfer plant anabl:



Mae'n bryd torri'r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau.

Mae Oxfam yn sefyll mewn partneriaeth ac undod â'r sefydliadau niferus ledled Prydain, gan gynnwys grwpiau llawr gwlad a arweinir gan ofalwyr, sy'n eiriol ac yn ymgyrchu dros well hawliau i ofalwyr a chydnabyddiaeth ddigonol ar gyfer gofal. Mae'r papur hwn yn rhoi eu lleisiau, eu gwybodaeth a'u gwaith wrth ei graidd, i:

- Dynnu sylw at y cysylltiad cynyddol rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau.
- Archwilio'r systemau sy'n siomi gofalwyr, a'r naratifau dwfn sy'n cadw gofal yn anweledig.
- Rhannu gweledigaeth ar gyfer newid, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu'r llywodraeth, ynghyd ag ar yr angen i newid naratifau ar ofal, a gweithio mewn undod a phartneriaeth â chymunedau, sefydliadau a mudiadau sy'n ysgogi newid.

BLWCH 1: Y MODD YR YDYM YN DIFFINIO GOFAL YN YR ADRODDIAD HWN[10]

Mae **gofal di-dâl** yn cynnwys gofalu am blant a darparu gofal a chymorth i bobl anabl, sâl a hŷn, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith domestig megis coginio a glanhau, heb gael unrhyw iawndal ariannol penodol. Mae gofal di-dâl fel arfer yn digwydd o fewn cartrefi ond gall hefyd gynnwys gofalu am aelodau estynedig o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar *rieni a gwarcheidwaid* sy'n gofalu am blant, a *gofalwyr di-dâl* ar gyfer pobl ag anghenion cymorth ychwanegol.

Mae **gofal â thâl** yn golygu gofalu am bobl neu wneud gwaith domestig am dâl. Mae'n digwydd yn y sectorau gofal cyhoeddus a phreifat, megis addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol, ond hefyd mewn cartrefi preifat, lle gofelir am bobl neu lle gwneir gwaith domestig am dâl – megis y mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant yn ei wneud, er enghraifft. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithwyr gofal ym maes *gofal cymdeithasol* yn ogystal ag yn y sectorau *addysg gynnar a gofal plant*. Mae hyn i gydnabod yr iselbrisio penodol y mae gweithwyr gofal yn ei wynebu, sydd wedi'i wreiddio yn statws proffesiynol is gwaith gofal ac yn cael ei adlewyrchu mewn cyflogau is a mwy o gamfanteisio o gymharu â'r hyn a brofir gan weithwyr yn y sectorau iechyd ac addysg.[11] Rydym yn llwyr gydnabod bod gweithwyr yn y sectorau iechyd ac addysg hefyd wedi wynebu heriau mawr cyn, yn ystod ac ers y pandemig, ac mae'r argyfyngau yn yr holl sectorau hyn yn rhyng-gysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd.

2 Y cysylltiad cynyddol rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai ffeithiau am y caledi a'r tlodi y mae gofalwyr ledled Prydain yn eu hwynebu heddiw, ac yn datgelu'r straen ar y seilwaith gofal plant a gofal cymdeithasol oherwydd blynyddoedd o danfuddsoddi.

Yna byddwn yn trafod y cysylltiad sy'n dyfnhau rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau, ac yn dangos y modd y mae menywod – yn enwedig y rhai sy'n wynebu gwahaniaethu ychwanegol ar sail hil, dosbarth, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, a hunaniaethau eraill – yn dal i dalu'r pris mwyaf.

2.1. REALITI GOFAL A THLODI

Amlygodd argyfwng COVID-19 bwysigrwydd hanfodol gofal i bob unigolyn a'n cymdeithas. Wrth i wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant gael eu cyfyngu a'u cau, roedd yn rhaid i lawer o bobl ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu di-dâl ychwanegol.

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid [12]

Nifer cyfartalog yr oriau yr oedd rhieni yn eu treulio yn gofalu am eu plant (gan gynnwys addysgu gartref) fesul diwrnod:

Diwrnod ysgol arferol yn 2014–15:

Ddechrau'r pandemig:

Carers UK [13]

Gofalwyr di-dâl yn darparu mwy o ofal i bobl anabl, sâl a hŷn chwe mis ar ôl i'r pandemig ddechrau:*



*O gymharu â chyn y cyfyngiadau symud cyntaf.

Tynnodd y pandemig sylw hefyd at y rôl hanfodol a chwaraeir gan weithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant rheng flaen (ochr yn ochr â gweithwyr iechyd ac addysg, a gweithwyr allweddol eraill); gwelodd y gweithwyr hyn eu llwyth gwaith yn dwysáu a'u cyfrifoldebau'n ehangu, ac mae'r effeithiau wedi bod yn hirhoedlog.

> Canfu arolwg diweddar gan y **Glymblaid Addysg Gynnar a Gofal Plant** fod gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar yn Lloegr yn dal i orfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau – yn aml i wneud iawn am y ffaith bod asiantaethau eraill wedi gwanychu – ers yr argyfwng. Mae hyn yn cynnwys cefnogi niferoedd cynyddol o blant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND).[14]

> Yn yr un modd, dywedodd 80% o'r gweithwyr gofal cymdeithasol a holwyd ledled y DU yn 2020 fod eu llwyth gwaith wedi cynyddu, gan gynnwys er mwyn cyflenwi ar gyfer gweithwyr eraill a oedd yn hunanynysu.[15] Yn fwy diweddar, dywedodd 70% o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn Lloegr fod staff rheng flaen gofal cymdeithasol i oedolion, fwy a mwy, yn cyflawni tasgau yr oedd staff y GIG yn ymgymryd â nhw'n flaenorol.[16]

Er gwaethaf mwy o amlygrwydd i rôl ganolog gofal yn ystod y pandemig, ynghyd â rhagor o ymwybyddiaeth yn hynny o beth, mae tystiolaeth a gasglwyd oddi ar 2020 yn datgelu'n eglur y modd y **mae'r cysylltiad rhwng gofal a thlodi wedi parhau i ddyfnhau.**

Ymhlith y rhai sy'n gofalu am blant:

Adroddodd **Gingerbread** fod dau o bob tri rhiant sengl a holwyd yn gynnar yn 2023 wedi dweud bod eu sefyllfa ariannol yn waeth na 12 mis ynghynt, a bod un o bob pump yn defnyddio credyd i dalu am hanfodion y cartref.[17]

Tynnodd yr **Young Women's Trust** sylw at y ffaith bod 40% o fenywod ifanc â phlant yn 2023 wedi dweud eu bod weithiau'n gorfod dewis rhwng eu bwydo eu hunain a bwydo eu plant – cynnydd o'r 30% yn 2022.[18]

Amcangyfrifodd y **Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant** fod chwyddiant uchel yn 2023 wedi gwthio cost magu plentyn i £166,000 ar gyfer cwpl a £220,000 i riant sengl (dros 18 oed). Mae hyn yn golygu diffyg o 24% i riant sengl ar yr isafswm cyflog, a diffyg o 8% yn achos cwpl lle mae'r ddau riant yn gweithio'n llawn amser.[19]

Ymhlith gofalwyr di-dâl ar gyfer pobl anabl, sâl a hŷn:

Canfu **Sefydliad Joseph Rowntree** fod cyfraddau tlodi yn parhau i fod yn llawer uwch yn 2021–22 ar gyfer aelwydydd â gofalwr di-dâl neu unigolyn anabl. Y gyfradd tlodi ar gyfer gofalwyr oedran gweithio di-dâl oedd 28%, o gymharu ag 20% ar gyfer y rhai heb gyfrifoldebau gofalu; ac roedd y ganran yn 31% ar gyfer pobl anabl, o gymharu â thua 19% ar gyfer y rhai nad ydynt yn anabl.[20]

Canfu **Carers UK** yn 2023 i dros draean (34%) y gofalwyr ddweud eu bod wedi torri'n ôl ar hanfodion megis bwyd neu wres, o gymharu ag 13% yn 2021; a chytunodd 60% eu bod yn poeni am effaith cyfrifoldebau gofalu ar eu harian.[21]

Yn 2022, roedd arolwg gan **Ymddiriedolaeth y Gofalwyr** wedi datgelu bod 91% o ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu gan y llywodraeth, a dywedodd 70% nad oeddent yn cael digon o gymorth.[22] Yn fwy diweddar, dywedodd 68% nad oeddent yn gallu cymryd seibiant o'u rôl ofalu pan oedd arnynt ei angen.[23]

Ymhlith gweithwyr gofal cyflogedig:

Amlygodd y prosiect ymchwil **Childcare During COVID-19** fod 32% o warchodwyr plant yn ennill llai na £10,000 yn 2020–21 (o gymharu â 13% yn 2018–19);[24] a chanfu'r **Women's Budget Group** fod gweithwyr meithrinfeydd a nanis a oedd ar ffyrlo ar gyflog o 80% yn cael trafferth talu costau sylfaenol.[25]

Amcangyfrifodd **Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)** yn 2020-21 fod mwy nag un o bob pedwar o blant (28.4%) a chanddynt rieni a oedd yn weithwyr gofal yn tyfu i fyny mewn tlodi,[26] a chanfu **Undeb y GMB** fod 75% o weithwyr gofal cymdeithasol wedi dweud bod eu gwaith yn ystod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ddifrifol ar eu hiechyd meddwl.[27]

Tynnodd **Unseen UK** sylw at gynnydd o 606% yn nifer yr achosion o gaethwasiaeth fodern yn y sector gofal rhwng 2021 a 2022, a chanfu bod gweithwyr a gysylltodd â'u llinell gymorth wedi dweud iddynt ysgwyddo dyled, a oedd tua £11,800 ar gyfartaledd, i dalu am gostau recriwtio, fisa a theithio.[28]

Mae'r caledi y mae gofalwyr yn ei brofi yn hollol anghyfiawn, a dylid ei gydnabod a delio ag ef yn ddi-oed trwy symudiad hollbwysig tuag at economi ofalgar lle rhoddir gwerth ar bob gofal a lle y caiff gymorth priodol.

2.2. MAE GOFAL NA RODDIR GWERTH ARNO AC SY'N ANWELEDIG YN PARHAU I HYBU ANGHYDRADDOLDEBAU

Mae gofal wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal yn ein cymunedau. Cyn y pandemig, roedd menywod yn y DU, ar gyfartaledd, eisoes yn cyflawni 60% yn fwy o ofal di-dâl a gwaith domestig na dynion,[29] ac roedd eu niferoedd yn anghymesur o uchel yn y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant.[30, 31]

"Mae gofal wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal yn ein cymunedau."

Ar ddechrau'r pandemig, er bod yr amser a dreulid yn darparu gofal di-dâl wedi cynyddu i ddynion a menywod, menywod oedd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith gofal ychwanegol. Er enghraifft, ym Mhrydain yn ystod wythnosau cyntaf cyfyngiadau symud 2020, roedd menywod, ar gyfartaledd, yn gwneud 78% yn fwy o'r gwaith gofal plant mewn cartrefi â phlentyn dan bump oed na dynion.[32] Mae adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y **WiSE Centre for Economic Justice** yn tynnu sylw at y ffaith, er bod y bwlch rhwng y rhywiau wedi lleihau fymryn ar ddechrau'r pandemig, mai dim ond dros dro y digwyddodd hyn a'i fod wedi lledaenu eto dros amser.[33]

Mae natur **ryweddol** gofal di-dâl yn dal yn eglur: mae mwyafrif y teuluoedd un rhiant yn dal i fod â menywod yn ben arnynt (2.5 miliwn, 84%),[34] ac mae menywod yn cynrychioli 59% o'r gofalwyr di-dâl yn Lloegr, 58% yng Nghymru,[35] a rhwng 60% a 70% yn yr Alban.[36]

Mae niferoedd y menywod yn y sector gofal hefyd yn parhau i fod yn anghymesur o uchel, lle mae swyddi'n parhau i fod ar gyflogau isel ac yn hynod o ansicr.[37] Yn Lloegr, arhosodd cyfran y menywod sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i oedolion yn sefydlog ar 82% rhwng 2012 a 2013, cyn gostwng fymryn i 81% yn 2022–23, a hynny'n bennaf oherwydd mewnlifiad o recriwtiaid rhyngwladol (i lenwi bylchau recriwtio a bodloni'r galw) a oedd yn ddynion gan mwyaf.[38] Yn 2022, roedd 97% o'r gweithwyr gofal plant yn Lloegr yn fenywod,[39] a oedd yn golygu fawr ddim newid, neu ddim newid o gwbl, o'r cyfnod cyn y pandemig.[40]

Y TUC [41]

Yn 2022, roedd menywod saith gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod allan o waith am dâl oherwydd cyfrifoldebau gofalu.



The Fawcett Society [42]

Mae mamau â dau o blant yn mynd â LLAI o incwm gartref na menywod heb blant.

Mae tadau â dau o blant yn cael MWY o dâl na dynion heb blant.



Living Wage Foundation [43, 44]

Y rhai mewn gwaith y talwyd llai na'r cyflog byw gwirioneddol iddynt yn 2022:





Mae gofal hefyd yn parhau i fod **wedi'i hileiddio**. Cyn 2020, roedd menywod du ac ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi â phlant dibynnol, yn ogystal ag mewn teuluoedd un rhiant a theuluoedd mwy.[45] Yn Lloegr, mae gan 25% o weithwyr gofal cymdeithasol i oedolion gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol, ac nid yw 19% ohonynt yn Brydeinig – sy'n golygu bod y gweithlu'n fwy amrywiol na'r boblogaeth gyffredinol.[46]

Mae dosbarthiad anghyfartal gwaith gofal nas rhoddir digon o werth arno, ac nad yw'n cael ei gefnogi na'i wobrwyo, yn parhau i gael effaith ar fenywod gydol eu hoes. Mae'n tanseilio eu hannibyniaeth ariannol a'u llesiant yn sylweddol, 'nawr ac yn y dyfodol, ac yn cynyddu bregusrwydd sy'n bodoli.

"Mae dosbarthiad anghyfartal gwaith gofal nas rhoddir digon o werth arno, ac nad yw'n cael ei gefnogi na'i wobrwyo, yn parhau i gael effaith ar fenywod gydol eu hoes."

Yn y cyd-destun hwn, mae dosbarth, hil, anabledd, statws mudol a hunaniaethau eraill yn rhyngweithio ag anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ac yn eu gwaethygu, gan siapio profiadau anghyfartal menywod o dlodi, caledi ac allgáu cymdeithasol.

> Yn ystod y pandemig, bu i ymchwil gan y **Women's Budget Group**, **The Fawcett Society**, y **London School of Economics** a **Phrifysgol Queen Mary** ganfod bod chwarter (23.7%) y mamau du ac ethnig leiafrifol yn dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant, o gymharu â 19% o famau gwyn.[47]

> Dangosodd ymchwil gan **The Fawcett Society**, **Women's Budget Group**, **Engender**, **Close the Gap**, **Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru**, a **Women's Budget Group Gogledd Iwerddon** fod chwech o bob deg (58%) o famau anabl, ar ddiwedd 2020, yn adrodd eu bod yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd, o gymharu â 36% o famau nad oeddent yn anabl.[48]

> Amlygodd y **Living Wage Foundation** fod menywod du bellach 1.2 gwaith yn fwy tebygol o fod ar gyflog isel na dynion du, 1.13 gwaith yn fwy tebygol na menywod gwyn, ac 1.7 gwaith yn fwy tebygol na dynion gwyn.[49]

Mae'r dystiolaeth a'r enghreifftiau uchod yn dangos yn eglur y modd y mae tlodi yn realiti i ormod o bobl sy'n darparu gofal cyflogedig a gofal di-dâl, a'r ffordd y mae anghydraddoldebau eraill yn arwain at brofiadau anghyfartal o galedi. Mae Adran 3 yn archwilio prif sbardunau tlodi gofalwyr.

3 Prif sbardunau tlodi gofalwyr

Mae'r iselbrisio treiddiol a systemig mewn perthynas â gofalwyr, a thanfuddsoddiad yn achos pob math o ofal yn creu ac yn dyfnhau'r cysylltiad rhwng gofal a thlodi.

Mae'r adran hon yn amlygu'r **systemau allweddol sy'n methu** o ran darparu cymorth a chydnabyddiaeth digonol i bob gofalwr, a buddsoddiad hanfodol i bob math o ofal. Fel y cyfryw, maent yn cadw ac yn tynnu mwy o ofalwyr i dlodi a chaledi, ac yn megino anghydraddoldebau.

Yna mae'n dangos y modd y mae'r systemau hyn sy'n cadw gofal yn anweledig ac yn ddigymorth yn cael eu llunio, eu llywio a'u cynnal gan **normau, gwerthoedd a naratifau cymdeithasol 'cyndyn' sylfaenol** sy'n dibrisio, yn anwybyddu ac yn diystyru gofal.

3.1. Y SYSTEMAU SY'N PARHAU I SIOMI GOFALWYR

Diffyg cymorth i gael gwaith am dâl a pharhau ynddo

Un o'r heriau allweddol (a hirsefydlog) i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl yw'r diffyg cymorth i'w galluogi i aros mewn gwaith am dâl, ond hefyd i gael y gwaith hwnnw. Mae hyn yn gorfodi llawer i leihau eu horiau gwaith, i ymgymryd â swyddi ansicr ar gyflog isel, neu i adael gwaith am dâl yn gyfan gwbl. Mae llawer hefyd yn ei chael yn anodd cael gwaith neu ddychwelyd i gyflogaeth, sy'n golygu goblygiadau sylweddol i'w sefydlogrwydd ariannol a'u cydnerthedd, yn ogystal â'u llesiant emosiynol.



Amcangyfrifodd **Sefydliad Joseph Rowntree**, gan ddefnyddio data o 2010 i 2019, fod y rhai sy'n gofalu am blant yn wynebu cosb ariannol gyfartalog o dros £15,000 y flwyddyn, a bod y rhai sy'n gofalu am bobl ag anghenion cymorth ychwanegol yn wynebu cosb gyfartalog o bron £5,000 y flwyddyn. Mae'r gosb hon yn cael ei hysgogi gan ofalwyr yn lleihau eu horiau gwaith neu'n gadael gwaith am dâl yn gyfan gwbl i ofal, o gymharu â'r codiadau cyflog y byddent wedi'u cael fel arall.[50]

Gofal plant drud ac anodd ei gyrchu, yn enwedig i blant iau, diffyg cymorth a hyblygrwydd yn y gweithle, a diffyg cymorth cyflogaeth digonol yw'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r her o gyfuno gofal di-dâl a gwaith am dâl.

Cyn y pandemig, amcangyfrifodd **Carers UK** fod tua 600 o bobl y dydd, ar gyfartaledd, yn gadael cyflogaeth â thâl o ganlyniad i ofalu am bobl anabl, sâl neu hŷn;[51] canfu hefyd fod 75% o ofalwyr di-dâl yn 2022 yn poeni am barhau i jyglo gwaith a gofal.[52]

Amlygodd **Working Families** fod dros hanner (51%) y rhieni ar incwm is a holwyd yn 2022 wedi gorfod lleihau eu horiau gwaith i reoli anghenion gofal plant, ac y bu'n rhaid i un rhan o bump roi'r gorau i'w swydd; Dywedodd 65% o rieni plant dan bump oed fod cost gofal plant yn straen ariannol ar eu teulu, a dywedodd pedwar o bob deg eu bod wedi mynd i ddyled i dalu am ofal plant.[53]

Canfu **Gweithredu dros Blant** fod hyd at 50% o'r plant a oedd yn byw mewn tlodi yn y DU (1.95 miliwn) yn 2022 mewn teuluoedd a oedd ag o leiaf un rhwystr sylweddol i waith neu waith ychwanegol.[54]

Oxfam Cymru a'r Glymblaid Gwneud Gofal yn Deg [55]

Rhieni yng Nghymru a holwyd yn 2023:

dywedasant fod costau gofal plant yn rhy uchel o gymharu â'u hincwm.

adroddasant nad oedd ganddynt unrhyw incwm dros ben na chynilion ar ôl talu am ofal plant.

dywedasant fod talu am ofal plant yn golygu nad oedd dychwelyd i'r gwaith yn gwneud synnwyr ariannol iddynt.

Mae dosbarthiad anghyfartal cyfrifoldebau gofalu di-dâl yn golygu bod menywod, yn enwedig menywod wedi'u hileiddio a menywod sydd wedi'u hymyleiddio fel arall, yn parhau i wynebu heriau mwy o ran cyfuno gofal di-dâl a gwaith am dâl.

> Amlygodd **Pregnant Then Screwed** yn 2020 fod 46% o famau a gafodd eu diswyddo yn ystod y pandemig wedi nodi diffyg darpariaeth gofal plant ddigonol fel yr achos; ac adroddodd 72% o famau eu bod yn gorfod gweithio llai o oriau oherwydd problemau gofal plant.[56]

> Yn 2023, canfu'r **TUC** fod menywod du ac ethnig leiafrifol 12 gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod allan o'r farchnad lafur oherwydd cyfrifoldebau gofalu di-dâl – mae hyn yn un o bob wyth (12%) o fenywod du ac ethnig leiafrifol, o gymharu â dim ond un o bob 100 (1%) o ddynion.[57]

> Dangosodd **Carers UK** yn 2023 fod gofalwyr benywaidd di-dâl deirgwaith yn fwy tebygol na dynion o fod mewn gwaith rhan-amser (18% o gymharu â 6%).[58] Mae hyn yn unol â'r duedd gyffredinol, sef bod menywod deirgwaith yn fwy tebygol na dynion o fod mewn gwaith rhan-amser.[59]

Nawdd cymdeithasol annigonol

Yn wyneb eu brwydr i gyfuno gofal di-dâl a gwaith am dâl, ac fel y **mae cost gofalu yn parhau i godi'n sydyn** – gan gynnwys ar gyfer cyfarpar meddygol hanfodol, gwres a bwyd,[60] ond hefyd gostau gofal plant[61] – mae'n rhaid i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl hefyd **ddibynnu ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol annigonol** nad ydynt yn talu am yr hanfodion. Mae hwn yn fater sy'n dyddio i'r cyfnod cyn y pandemig a'r argyfwng costau byw, ond yn un a waethygwyd ganddynt yn dilyn blynyddoedd o dorri a rhewi budd-daliadau.[62] Er y croesewir y ffaith bod budd-daliadau wedi cael eu hwchraddio'n ddiweddar yn unol â chwyddiant, nid yw hyn yn newid y ffaith eu bod yn parhau i fod yn annigonol.

> Lwfans Gofalwr yw'r budd-dal isaf o'i fath o hyd, sef £76.75 yr wythnos yn unig (yn 2023-24), i'r rhai sy'n darparu lleiafswm o 35 awr o ofal. Mae ymchwil gan **Carers UK** yn dangos bod 45% o'r gofalwyr sy'n cael Lwfans Gofalwr yn brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd – cynnydd o'r 39% yn 2022; ac mae 34% yn cael trafferth fforddio cost bwyd (o gymharu â 29% yn 2023).[63] Nid yn unig y mae'r taliad yn annigonol, ond mae meini prawf cymhwysedd cyfyngol yn atal llawer o ofalwyr rhag cael y budd-dal, a therfyn enillion anhyblyg (hyd at £139 yr wythnos) yn rhwystro gallu gofalwyr i ymgymryd â mwy o waith am dâl.

> Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan y **Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant** yn datgelu'r modd y bu, yn 2023, i effeithiau cyfunol y pandemig, yr argyfwng costau byw a'r toriadau i nawdd cymdeithasol oddi ar 2016 olygu bod hyd yn oed teuluoedd dau riant â dau blentyn, gyda'r ddau riant yn gweithio'n llawn-amser ar y "cyflog byw cenedlaethol", ar eu colled o £51 yr wythnos o ran y safon byw safonol, o gymharu â diffyg o £37 y llynedd – mae'r toriadau hefyd yn cynnwys y terfyn dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau (Blwch 9).[64]

Cynyddodd dibyniaeth ar nawdd cymdeithasol yn sydyn yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, pan gafwyd dros 10 gwaith yn fwy na'r nifer arferol o geisiadau am Gredyd Cynhwysol ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf.[65] Roedd y mesurau brys cychwynnol a roddwyd ar waith gan lywodraeth y DU

“Ar fenywod y mae’r cymorth annigonol yn effeithio fwyaf gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar nawdd cymdeithasol.”

i glustogi effaith y pandemig – gan gynnwys y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol a’r cynllun ffyrlo – wedi darparu rhywfaint o ryddhad mawr ei angen. Fodd bynnag, ni chafodd y cymorth hollbwysig hwn erioed ei estyn i fudd-daliadau i bobl anabl a gofalwyr, a dim ond cymorth dros dro ydoedd.

Mae’r Taliadau Costau Byw a gyflwynwyd gan lywodraeth y DU i gefnogi pobl gyda chostau ynni a thanwydd hefyd wedi darparu rhywfaint o ryddhad. Fodd bynnag, unwaith eto, disgwylir i’r taliadau ddod i ben yn 2024 (ac maent eisoes wedi dod i ben ar gyfer pobl anabl yn ystod hydref 2023[66]). Bu i’r **Resolution Foundation** yn ogystal amlygu nad yw’r Taliadau Costau Byw yn gwrthbwyso’r rheseidiau o bwysau ariannol y mae aelwydydd yn eu hwynebu ar ben biliau ynni, gan gynnwys costau cynyddol bwyd.[67]

Yn yr Alban, tra bo’r llywodraeth wedi defnyddio ei phwerau datganoledig i ddarparu cymorth ychwanegol i rieni, sydd i’w groesawu – trwy Daliad Plant yr Alban (Blwch 9) – ac i ofalwyr di-dâl – trwy’r Atodiad Lwfans Gofalwr, ac Atodiadau Coronafeirws Lwfans Gofalwr, sy’n atodiadau ychwanegol, yn 2020 a 2021 (Blwch 10) – mae’r cymorth ariannol yn parhau i fod yn annigonol.[68]

Unwaith eto, ar fenywod – yn enwedig menywod wedi’u hileiddio a menywod sydd wedi’u hymyleiddio fel arall – y mae’r cymorth annigonol yn effeithio fwyaf gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar nawdd cymdeithasol. Y rheswm dros hyn yw eu bod, yn gyffredinol, yn ennill llai na dynion trwy waith am dâl, ac, fel yr amlygir yn y papur hwn, am fod ganddynt fwy o gyfrifoldebau gofalu. Felly, bydd unrhyw annigonolrwydd o ran budd-daliadau yn cael effaith anghymesur arnynt.

Amcangyfrifodd **Ymddiriedolaeth Runnymede** yn ddiweddar fod teuluoedd gwyn, ar gyfartaledd, bellach yn cael £454 yn llai y flwyddyn mewn budd-daliadau arian parod nag yr oeddent ddegawd yn ôl. Fodd bynnag, mae hyn yn codi i £806 yn llai y flwyddyn ar gyfer teuluoedd du ac ethnig leiafrifol, ac i £1,040 ar gyfer menywod du ac ethnig leiafrifol yn benodol.[69]

Mae clymblaid o elusennau yn yr Alban, dan arweiniad **One Parent Families Scotland**, wedi tynnu sylw at broblem y ‘gosb rhiant ifanc’. Mae hyn yn effeithio ar bobl dan 25 oed sydd ar Gredyd Cynhwysol, sef pobl sy’n cael cyfradd is o fudd-daliadau na’r rhai dros 25 oed. Mae hyn yn golygu bod cyplau ifanc sy’n rhieni ar eu colled o tua £100 y mis, a bod rhieni sengl – sy’n fenywod yn bennaf – tua £65 yn waeth eu byd y mis na phobl dros 25 oed.[70]

Mae effaith y polisi Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus, nad yw’n caniatáu i ymfudwyr gael mynediad at gymorth nawdd cymdeithasol, wedi gadael llawer o ymfudwyr, yn enwedig menywod mudol, heb fawr ddim cymorth brys, os o gwbl, yn ystod y pandemig, a ‘nawr yn ystod yr argyfwng costau byw.[71]

Tâl ac amodau gwaith gwael i weithwyr gofal

Mae methiannau systemig yr un mor amlwg ar gyfer gwaith gofal am dâl. Nid yw gweithwyr gofal, ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, yn cael digon o gyflog, ac maent yn profi lefel uchel o ansicrwydd ynghylch eu swyddi ac amodau gwaith gwael.

Mae llywodraethau Cymru a’r Alban wedi cymryd camau i gynyddu cyflogau gweithwyr gofal. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol (yn y sectorau cyhoeddus a phreifat) yn cael y Cyflog

Byw gwirioneddol.[72] Mae yna hefyd ymrwymiad yn yr Alban i godi lefelau cyflogau o £10.90 i £12 yr awr yn y sector Preifat, Gwirfoddol ac Annibynnol, sy'n darparu dysgu cynnar a gofal plant a ariennir, yn ogystal ag ym maes gofal cymdeithasol, o fis Ebrill 2024.[73] Fodd bynnag, mae staff ledled gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru a'r Alban yn parhau i brofi lefelau tebyg i'w cymheiriaid yn Lloegr o ran cyflog isel ac ansicrwydd ynghylch eu swyddi.[74]

Y TUC [75]

Yn Lloegr, mae'r rhai sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw gwirioneddol yn cynnwys:

62% o gynorthwywyr ac ymarferwyr gofal plant

61% o weithwyr gofal cymdeithasol ac uwch-weithwyr gofal

Adroddiad Sgiliau Gofal [76]

Pobl a gyflogir ar gontractau dim oriau yn Lloegr, ac nad oes ganddynt fynediad at hawliau ac amddiffyniad digonol:

Y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion:

22% (340,000 o swyddi wedi'u llenwi)

Yr economi ehangach:

3.4%

Y TUC [77]

Mae un o bob tair (31%) o'r 155,000 o fenywod du ac ethnig leiafrifol sydd ar gontractau dim oriau yn gweithio ym meysydd iechyd a gwaith cymdeithasol.

Mae'r tâl salwch statudol annigonol sy'n cael ei ddarparu[78] hefyd yn effeithio ar y gweithlu gofal, ochr yn ochr â'r diffyg cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa.

Mae cyflogau ac amodau gwael ymhlith y grymoedd sy'n sbarduno'r heriau recriwtio a chadw sylweddol y mae'r ddau sector yn eu hwynebu ledled Prydain.

Mae ymchwil ddiweddar gan y **Glymblaid Addysg Gynnar a Gofal Plant** wedi canfod bod recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dod yn fwy anodd yn Lloegr, a hynny ledled pob math o leoliad, o gymharu â chyn COVID-19. Mae'n arbennig o anodd recriwtio staff cymwys, ac, ar gyfartaledd, cymerodd 10 wythnos i lenwi swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[79]

Yn yr Alban, canfu'r **Glymblaid Darparwyr Gofal a Chymorth**, ar y cyd â **Fforwm Sector Gwirfoddol Adnoddau Dynol**, fod darparwyr gofal cymdeithasol a chymorth yn wynebu colled sylweddol mewn staff, gyda chyfartaledd o 52% o ofalwyr a newidiodd swyddi yn 2022 yn gadael y sector gofal cymdeithasol yn gyfan gwbl.[80]

Nid yw'r her hon i recriwtio a chadw wedi arwain at swyddi mwy deniadol; yn hytrach, mae'r farchnad lafur yn chwilio am weithwyr mudol a fydd yn derbyn yr amodau presennol, neu waeth.

Mae **UNSAIN** wedi taflu goleuni ar y camfanteisio a'r aflonyddu cynyddol a brofir gan weithwyr gofal cymdeithasol mudol pan fyddant yn dod i'r DU i helpu i lenwi bylchau recriwtio.[81] Mae profiadau tebyg wedi cael eu hamlygu gan weithwyr gofal plant yn y cartref (megis au-pairs a nanis), sy'n fenywod mudol yn bennaf.[82]

Nid yw'r seilwaith gofal yn cael digon o arian ac mae'n cael ei orymestyn

Yn rhy aml, mae'r heriau sy'n wynebu gofalwyr cyflogedig a di-dâl (yn ogystal â'r rhai sy'n cael gofal) yn gysylltiedig yn y bôn â **thanfuddsoddiad cyhoeddus parhaus yn y seilwaith gofal cyfan, ochr yn ochr â dibyniaeth gynyddol ar ddarparu gofal sy'n rhoi blaenoriaeth i elw dros safon a hygyrchedd gwasanaethau gofal**.[83, 84]

Rhwng 2019 a 2023, gwariodd cynghorau Lloegr amcangyfrif o £7.5 biliwn ar osod pobl mewn cartrefi gofal gwael eu safon, gan gynnwys £480 miliwn ar gartrefi yr ystyrid eu bod yn 'annigonol' – roedd llawer ohonynt wedi'u graddio'n anniogel ac yn destun mesurau arbennig.[85]

Yn y sector blynyddoedd cynnar yn Lloegr, mae cwmnïau preifat-er-elw mawr (sy'n aml mewn dyledion mawr) wedi cynyddu eu cyfran o'r farchnad, a hynny heb gynnydd sylweddol mewn lleoedd gofal plant, na mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu. Mae cyfran yr incwm sy'n cael ei gwario ar gyflogau gymaint â 14% yn is ar gyfer cwmnïau gofal plant preifat-er-elw na chwmnïau nid-er-elw.[86]

Ymhell cyn y pandemig, amlygwyd diffyg buddsoddiad cyhoeddus digonol, a waethygwyd gan flynyddoedd o gyni, a darpariaeth gofal er-elw cynyddol fel tueddiadau heriol.[87] Ond mae'r cynnydd sydyn a chyflym mewn anghenion gofal oherwydd argyfwng COVID-19 (gan gynnwys ôl-groniad mewn darpariaeth iechyd) wedi rhoi seilwaith gofal sydd eisoes yn brwydro dan bwysau anhygoel, gydag effeithiau hirhoedlog.

Amcangyfrifodd **Age UK a'r Care & Support Alliance** fod gan 2.6 miliwn o bobl dros 50 oed yn Lloegr heddiw anghenion gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael eu diwallu.[88] A chyfrifodd **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion** nad oedd dros hanner miliwn awr o ofal cartref wedi cael eu darparu yng ngwanwyn 2023 ledled rhanbarthau Lloegr oherwydd prinder staff – sy'n cyfateb i ofal heb ei ddarparu gwerth tua £14.7 miliwn.[89]

Cofnododd **Coram Family and Childcare** ostyngiad sylweddol mewn argaeledd gofal plant ledled Lloegr yn 2023, gyda dim ond hanner yr ardaloedd lleol yn nodi bod digon o ofal plant ar gael i blant dan ddwy oed – gostyngiad o 7% o gymharu â 2022 – tra bo costau gofal plant wedi bod yn codi'n sydyn. Canfuwyd hefyd mai dim ond 18% o'r awdurdodau lleol yn Lloegr a arolygwyd yn 2023[90] oedd â digon o ofal plant ar gyfer plant anabl, o gymharu â 25% yn 2021.[91]

Bydd angen i unrhyw gynnydd mewn cyllid cyhoeddus ar gyfer y sectorau gofal plant a gofal cymdeithasol ystyried effaith gronnol blynyddoedd o gyni a sioc y pandemig, ond hefyd yr argyfwng economaidd parhaus a'r chwyddiant uchel cysylltiedig. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd llywodraeth y DU estyniad i'r cynllun gofal plant 30 awr a

ariennir yn Lloegr. Tra oedd hwn yn gam i'w groesawu, roedd **Women's Budget Group** wedi amcangyfrif bwlch ariannu o £5.2 biliwn erbyn 2025–26 rhwng cyllideb llywodraeth y DU a gwir gost y ddarpariaeth estynedig hon,[92] sydd hefyd mewn amgylchiadau difrifol oherwydd diffyg staff.[93]

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu nad oes gan y rhai â chyfrifoldebau gofalu di-dâl gymorth; nad yw'r gweithlu gofal yn cael tâl digonol nac yn cael ei wobrwyo; bod y gwasanaethau gofal, gan gynnwys y seilwaith ffisegol, y cyfarpar a'r adnoddau, wedi'u gorymestyn ac yn annigonol; ac nad oes gan blant, na phobl anabl, sâl a hŷn, y gofal o safon uchel y mae arnynt ei angen.

3.2. NARATIFAU SY'N GOLYGU BOD GOFAL YN PARHAU I GAEL EI ISELBRISIO

Yn y DU ac yn fyd-eang, mae yna naratifau cyhoeddus a sefydliadol hirsefydlog yn cadw gofal yn anweledig ac yn golygu ei fod yn cael ei gymryd yn ganiataol, elfennau sy'n ei gwneud yn anoddach sicrhau newid radical yn achos y systemau aflwyddiannus a amlinellir yn Adran 3.1.

Mae yna bedwar norm sylfaenol allweddol wrth wraidd ysgogwyr strwythurol tlodi gofalwyr:[94]



Y GRED ECHDYNNOL, SEILIEDIG AR ELW y dylid mynd ar drywydd twf economaidd ar unrhyw gost ac mai dim ond gweithgareddau sy'n cynhyrchu gwerth ariannol uniongyrchol sy'n bwysig ar gyfer cynnydd economaidd. Nid yw hyn yn cynnwys y biliynau o oriau o ofal di-dâl a gwaith domestig a wneir yn bennaf gan fenywod.[95]

Y GRED RYWIAETHOL, DDOSBARTHOL, HILIOL AC ABLEDDOL fod llafur menywod, pobl anneuaidd, y rhai sy'n byw mewn tlodi, ymfudwyr, grwpiau anabl, a grwpiau ethnig leiafrifol ac wedi'u hileiddio, yn is o ran ei werth ac yn llai teilwng o hawliau ac urddas.

Y GRED BATRIARCHAIDD mai gwaith menywod yw gofalu – ei bod yn 'naturiol' i fenywod ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ar aelwydydd ac mewn cymunedau, a hefyd nad yw gofal yn 'waith' gan ei fod yn digwydd mewn mannau preifat ac yn aml yn ddi-dâl.

Y GRED NEORYDDFRYDOL mai gweithgarwch a chyfrifoldeb unigol, preifat yw gofal yn hytrach nag un torfol a ddylai gael ei rannu'n gyfartal rhwng cymunedau a'r wladwriaeth, gyda llywodraethau'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb i sicrhau bod unigolion a chymunedau yn cael gofal digonol.

Mae'r naratifau hyn yn cael eu llywio gan systemau o ormes sy'n gweithredu i gynnal ac atgyfnerthu dynameg pŵer sy'n gorthrymu ac yn allgáu pobl a chymunedau ar sail dosbarth, rhyw, hil, anabledd a hunaniaethau eraill.

3.3. AMSER I WEITHREDU

Yn erbyn cefndir o gostau byw cynyddol, amddifadedd cynyddol,[96] argyfwng economaidd parhaus a gwasanaethau cyhoeddus sy'n brwydro, mae rôl hanfodol gofal a gofalwyr yn parhau i fod yn anweledig a chael ei chymryd yn ganiataol – ac mae'r seilwaith gofal yn dal i fod heb ei ariannu ddigon ac yn ddiffygiol. Mae'r dystiolaeth a amlygir yn y papur hwn yn dangos bod tlodi'n dod yn realiti i ormod o bobl sy'n darparu gofal hanfodol am dâl ac yn ddi-dâl. Y tu ôl i bob ffaith a ffigur mae yna straeon am galedi ac allgáu diangen.

“Rhaid i ni weithredu 'nawr i dorri'r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau.”

Mae'n amlwg sut y mae'r diffyg gwerth a roddir ar ofal a gofalwyr yn effeithio mewn modd anghyfartal ar y rhai sydd eisoes yn profi gormes ac allgáu ar sail dosbarth, rhyw, hil, anabledd a hunaniaethau croestoriadol eraill – ac yn peri iddynt ddisgyn i dlodi a thrallod yn gynt. Rhaid i'r anghyfiawnder hwn ddod i ben.

Mae angen gweithredu ar frys, yn enwedig ar lefel polisi, i greu newidiadau radical yn y systemau a'r naratifau dwfn sy'n peri bod iselbrisio gofal yn parhau'n ddiddiwedd, ac, o ganlyniad, tlodi ac anghydraddoldebau.

Mae'r 1% cyfoethocaf ymhlith Prydeinwyr y DU yn meddu ar fwy o gyfoeth na 70% o'r boblogaeth,[97] ac mae'r pum dyn cyfoethocaf ledled y byd wedi mwy na dyblu eu cyfoeth oddi ar 2020, tra bo cyfoeth pum biliwn o bobl wedi gostwng.[98] Rhaid i ni weithredu 'nawr i dorri'r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau.

4 Gweledigaeth ar gyfer newid

Mae'r adrannau blaenorol wedi dangos y cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau, ac wedi archwilio'r systemau a'r naratifau sy'n sail i anweledigrwydd gofal ac yn golygu ei fod yn parhau'n ddiddiwedd. Fel yr amlygwyd gan y myrdd o sefydliadau, mudiadau, clymbleidiau ac ymgyrchoedd cymdeithas sifil sy'n mynnu newid – lawer ohonynt wedi codi mewn ymateb i'r amgylchiadau presennol – ni ddylai'r sefyllfa hon gael ei goddef, ac nid yw'n gynaliadwy.

Mae'n bryd symud mewn modd rhagweithiol yn ein hagwedd economaidd, a hynny at fodel sy'n buddsoddi mewn economi gofal ffeministaidd – lle mae pob gofal, am dâl a di-dâl, yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel nwydd cymdeithasol hanfodol a chydgyfrifoldeb; lle mae gofal di-dâl yn cael ei

leihau a'i ailddosbarthu; lle mae gofal cyflogedig yn cael ei wobrwyo'n ddigonol; a lle mae gan bob gofalwr lais pwerus mewn prosesau gwneud penderfyniadau.[99, 100] Mae economi o'r fath yn un sy'n blaenoriaethu gofal nid yn unig i bobl ond hefyd i'r blaned, ac felly mae'n gofyn am ofal trawsnewidiol a pholisïau ymatebol i rywedd, yn ogystal â pholisïau cyfiawn o ran yr hinsawdd sy'n symud o arferion echdynnol i arferion adfywiol.[101]

Mae gwaith dylanwadol Oxfam ar ofal, tlodi ac anghydraddoldebau ledled Prydain yn cyfrannu at **ein hymdrechion byd-eang i symud pŵer ac adeiladu economi newydd sy'n canolbwyntio ar y gwaith anweledig cyfredol a wneir yn bennaf gan fenywod ledled y byd, gan gynnwys gofal di-dâl a gwaith anffurfiol, ac sy'n buddsoddi ynddo.** Mae hyn yn cydnabod bod y systemau pŵer sydd, yn eu hanfod, yn achosi i dlodi ac anghydraddoldebau barhau'n ddiddiwedd yr un fath yn fyd-eang.

"Felly bydd cynnydd o ran cyflawni newid polisi yn gofyn am nifer o newidiadau ledled sawl maes gan y llywodraethau gwahanol ar hyd a lled Prydain."

Mae gan y DU a llywodraethau datganoledig gyfrifoldeb allweddol i ysgogi newid, cyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol hon a thorri'r cysylltiad rhwng gofal, tlodi ac anghydraddoldebau. Mae ganddynt y pŵer i lunio a newid penderfyniadau ar bolisi a gwariant, ond hefyd i newid y naratifau dwfn sy'n cadw gofal yn anweledig ac yn golygu ei fod yn cael ei iselbrisio. Mae gan gymunedau a'r gymdeithas ehangach hefyd y pŵer i wthio am newid mewn naratif a pholisi, a hynny trwy ysgrifennu a chofleidio stori newydd am ofal a dal llywodraethau'n atebol.

Mae'r adran hon yn archwilio gweledigaeth eang ar gyfer polisi trawsnewidiol a newid naratif, lle mae Oxfam yn sefyll mewn partneriaeth ac undod ag eraill ledled Prydain i wthio am newid brys.

4.1. NEWID POLISI TRAWSNEWIDIOL

Mae yna chwe maes allweddol lle mae gofyn i'r llywodraeth weithredu ar fyrder i ysgogi symudiad i economi mwy gofalgar:

1. Diwygio'r system drethi a'i gwneud yn deg, yn ailddosbarthol ac yn flaengar i ddarparu adnoddau ar gyfer symudiad i economi ofalgar, ac i gydnabod ac ailddosbarthu'r cyfoeth sy'n cael ei greu a'i gynnal gan lafur gofalwyr di-dâl a gofalwyr nad ydynt yn cael tâl digonol.
2. Cynyddu buddsoddiad yn y seilwaith gofal, a sicrhau bod safon a hygyrchedd gwasanaethau yn cael blaenoriaeth dros elw.
3. Sicrhau bod gweithwyr gofal am dâl ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael eu talu'n deg ac yn cael mynediad at gyflogaeth sefydlog ac amodau gwaith teilwng, a bod eu sgiliau'n cael eu cydnabod yn briodol.
4. Atgyfnerthu'r rhwyd diogelwch nawdd cymdeithasol i bawb, gan gynnwys y rhai na allant weithio neu sy'n gorfod lleihau eu horiau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu, anableddau neu salwch.
5. Sicrhau cymorth digonol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl i'w galluogi i gael mynediad at gyflogaeth deilwng â thâl, neu i ddychwelyd i gyflogaeth o'r fath neu aros ynddi.
6. Ymrwymo i gasglu data mewn modd tryloyw ac i olrhain cynnydd o ran a yw polisïau a phenderfyniadau ar wariant yn rhoi gwerth effeithiol ar bob gofal a gofalwr ac yn buddsoddi ynddynt.

Mae'r weledigaeth hon yn ymdrin ag ystod eang o faterion polisi sy'n aml yn gorgyffwrdd. Felly bydd cynnydd o ran cyflawni newid polisi yn gofyn am nifer o newidiadau ledled sawl maes gan y llywodraethau gwahanol ar hyd a lled Prydain.

Mae'r tudalennau canlynol yn egluro'n fras y chwe chynnig uchod ac yn rhoi enghreifftiau o argymhellion polisi. Mae'r rhain naill ai'n ofyniadau y mae Oxfam yn eu cefnogi yn rhan o'r clymbleidiau y mae'n aelod ohonynt a'r ymgyrchoedd y mae'n eu cymeradwyo, neu'n gynigion sydd wedi cael eu datblygu gan gynghreiriaid y mae Oxfam yn gweithio gyda nhw. **Rydym yn eu hamlygu fel *rhai* o'r ffyrdd posibl o symud yn nes at y weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer economi ofalgar**.[102]

1. Diwygio'r system drethi

Mae diwygio'r system drethi yn **gam sylfaenol nid yn unig i ariannu newid i economi ofalgar, ond hefyd i gydnabod ac ailddosbarthu'r cyfoeth** sy'n cael ei greu a'i gynnal gan lafur gofalwyr di-dâl a gofalwyr nad ydynt yn cael tâl digonol.

Mae diwygio'r system drethi hefyd yn angenrheidiol i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r system drethi bresennol **yn anfanteisiol i fenywod** gan fod menywod yn ennill llai na dynion, yn gwneud mwy o waith gofal di-dâl ac yn dibynnu mwy ar wasanaethau cyhoeddus.[103]

Dylid buddsoddi refeniw trethi i leihau anghydraddoldebau o ran incwm a chyfoeth, rhywedd a hil, ac anghydraddoldebau eraill hirsefydlog, ac i atgyfnerthu ymatebolrwydd ac atebolrwydd llywodraethau i ddinasyddion.

Dylai llywodraeth y DU ddiwygio treth ar gyfoeth (Blwch 2), cyflwyno ac atgyfnerthu'r trethi ffawdelw cyfredol, a chymryd camau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ac efadu trethi er mwyn trethu cyfoeth ac asedau alltraeth mewn modd effeithiol, gan gynnwys trwy gyflwyno adroddiadau cyhoeddus fesul gwlad ar gyfer pob cwmni rhyngwladol sy'n gweithredu yn y DU.

BLWCH 2: CYNNIG TAX JUSTICE UK A PATRIOTIC MILLIONAIRES UK AR GYFER DIWYGIO TRETHI[104]

Mae Oxfam yn cefnogi'r chwe diwygiad i'r dreth ar gyfoeth y mae **Tax Justice UK** a **Patriotic Millionaires UK** wedi eu pennu, diwygiadau a allai godi hyd at £50 biliwn y flwyddyn:

1. Gosod treth ar gyfoeth o 1-2% ar asedau dros £10 miliwn, a fyddai'n codi hyd at £22 biliwn y flwyddyn.
2. Cyfartalu enillion cyfalaf â chyfraddau treth incwm, a fyddai'n codi hyd at £15.2 biliwn y flwyddyn.
3. Cymhwyso Yswiriant Gwladol i incwm buddsoddi, a fyddai'n codi hyd at £8.6 biliwn y flwyddyn.
4. Rhoi diwedd ar y bylchau treth etifeddiant sydd eisoes o fudd i'r cyfoethog, a fyddai'n codi hyd at £1.4 biliwn y flwyddyn.
5. Diwygio'r rheolau ar statws preswylwyr nad ydynt yn hanu o Brydain, a fyddai'n codi hyd at £3.2 biliwn y flwyddyn.
6. Cyflwyno treth o 4% ar brynu cyfranddaliadau yn ôl, a fyddai'n codi tua £2 biliwn y flwyddyn.

Er bod llywodraeth y DU yn rheoli ysgogiadau treth sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â chyfoeth, dylai'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban ddefnyddio eu pwerau trethu i gynyddu refeniw i'w fuddsoddi mewn seilwaith gofal. Er enghraifft, mae dros 60 o sefydliadau yn yr Alban wedi galw ar lywodraeth yr Alban i roi hwb i ddiwygiadau sylfaenol i'r system drethi ddatganoledig er mwyn targedu cyfoeth nad yw'n cael ei drethu ddigon a chymell newid ymddygiad rhag-gymdeithasol ac amgylcheddol.[105]

2. Buddsoddi mewn gofal a rhoi blaenoriaeth i safon a mynediad dros elw

Dylai **gwrthdroi'r duedd barhaus o danariannu ein seilwaith gofal**, gan gynnwys gofal cymdeithasol a gofal plant, **a chydnabod bod y tanariannu hwn yn gynildeb ffug**, fod yn flaenoriaeth i unrhyw lywodraeth.

Mae buddsoddi'n ddigonol mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant yn golygu nid yn unig sicrhau eu bod yn gallu goroesi o ddydd i ddydd, ond hefyd ofalu eu bod yn dod yn seilwaith cydnerth a all ddiwallu anghenion gofal plant, yn ogystal â phobl anabl, sâl a hŷn; rhoi cymorth digonol i'r rhai sy'n darparu gofal di-dâl; a gwarantu gwaith teilwng i weithwyr gofal.

Mae Oxfam yn cefnogi cynigion polisi sy'n canolbwyntio ar greu gwasanaethau gofal cyffredinol o safon uchel sy'n cydnabod y gwerth y mae gweithwyr gofal yn ei roi i'n cymdeithas a'n heconomi, ac sy'n **rhoi lleisiau ac anghenion y rhai sy'n rhoi ac yn profi gofal wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau**. Er y gall cynigion ar draws y gwledydd amrywio, ynghyd â'r cyd-destunau polisi a chyllid cyfredol, yr un yw eu nod, ac mae cyllid ychwanegol yn ofynnol ar bob un ohonynt.

O ran gofal cymdeithasol, bydd buddsoddiad cynyddol yn lleddfu'r pwysau ar ofalwyr cyflogedig a di-dâl yn ogystal ag ar y GIG, yn gwella safon y gofal i'r rhai sy'n ei brofi, ac yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel yn y sector hwn lle mae menywod yn dominyddu (Blwch 3).[106] Yn achos gofal plant, bydd cyllid digonol yn darparu cymorth hanfodol i rieni a gwarcheidwaid; yn cynnig mannau diogel i blant; yn galluogi'r gweithlu i gael y cynnig o hyfforddiant a thâl teg; ac yn cefnogi'r sector i fod yn gwbl gynhwysol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (Blwch 4).

BLWCH 3: GOFAL CYMDEITHASOL – BETH Y GALLAI MWY O FUDDSODDIAD EI OLYGU?

Lloegr

Byddai cynnig ar gyfer gwasanaeth gofal cymdeithasol o safon gyffredinol yn Lloegr, a gyflwynwyd gan y **New Economics Foundation** a'r **Women's Budget Group**,[107] yn costio £19.6 biliwn y flwyddyn, yn ychwanegol at gost y system gyfredol, sef £20 biliwn. Byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn cau'r bwlch ariannu neu'r gwahaniaeth rhwng yr incwm amcangyfrifedig sydd ar gael i ariannu gwasanaethau a chostau diwallu'r holl anghenion gofal, a hynny trwy ofal cymdeithasol uchel ei safon a rhad ac am ddim lle byddai'n cael ei ddefnyddio.

Yr Alban

Mae'r **Scottish Women's Budget Group**, mewn ymchwil a ariannwyd gan Oxfam Scotland,[108] yn gosod senario trawsnewidiol ar gyfer diwygio. Mae hyn yn canolbwyntio ar gynyddu mynediad at ofal am ddim i'r rhai ag anghenion cymedrol, a chynyddu cymwysterau a thâl i weithwyr gofal i £15.21 yr awr ar gyfartaledd, gan ragdybio cyfraddau uwch i leddfu anghenion gofal anffurfiol ymhellach a dileu anghenion nas diwallwyd. Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyhoeddus blynyddol o £6,822 miliwn neu 3.7% o'r cynnyrch domestig gros, sef cynnydd o 1.8% ar y gyllideb bresennol.

BLWCH 4: GOFAL PLANT: SUT OLWG A ALLAI FOD AR SYSTEM NEWYDD?

Lloegr

Fel aelod o'r **Glymblaid Addysg Gynnar a Gofal Plant**,[109] mae Oxfam yn cefnogi ei galwad i lywodraeth y DU am ymyraethau byrdymor i 'achub' y sector, ynghyd ag ymrwymiad tymor hwy i 'ddiwygio' er mwyn darparu system sydd wedi'i gwreiddio yn yr egwyddorion a ganlyn:

- Darpariaeth o safon uchel i bob plentyn, yn enwedig y rhai â'r angen mwyaf.
- Darpariaeth gynaliadwy sy'n gweithio i bob math o rieni sy'n gweithio a'u cyflogwyr.
- Tâl, telerau ac amodau da ar gyfer y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal plant.
- Opsiynau hygyrch a fforddiadwy i bob rhiant, ym mhob cymuned.
- Opsiynau a luniwyd yn lleol sy'n ymateb i amgylchiadau lleol.

Cymru

Mae Oxfam Cymru a'r **Glymblaid Gwneud Gofal yn Deg**[110] wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wella cymorth gofal plant trwy:

- Barhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn gofal plant.
- Rhoi gofal plant i bob plentyn wrth wraidd ei strategaeth tlodi plant.
- Datblygu glasbrint ar gyfer cynllun gofal plant â'i ffocws ar y dyfodol i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol, a hynny trwy gynnwys arbenigwyr, rhieni a rhanddeiliaid y sector gofal plant.
- Creu system gofal plant ddi-dor a fforddiadwy sy'n mynd i'r afael â'r bylchau presennol ac yn sicrhau dull cyffredinol sydd o fudd i bob plentyn.
- Cydnabod cyfraniad sylweddol gofal di-dâl a llafur domestig i'r economi.

I sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn y seilwaith gofal o fudd gwirioneddol i'r rhai sy'n darparu ac yn profi gofal, **dylai llywodraethau roi'r gorau i hyrwyddo a galluogi cyllidoli – neu berchnogaeth echdynnol – yn achos pob gwasanaeth gofal** (gofal cymdeithasol a gofal plant), a hynny trwy gyfyngu ar rôl cwmnïau gofal er-elw, a'u rheoleiddio (Blwch 5).

Yn lle hynny, dylai llywodraethau ganolbwyntio ar ehangu ac atgyfnerthu systemau gofal sy'n deg, sy'n drawsnewidiol o ran rhywedd, sy'n hygyrch i bawb, ac sy'n rhad ac am ddim yn y man lle'u defnyddir.

BLWCH 5: FFYRDD I ROI TERFYN AR GYLLIDOLI GOFAL

Beth yw cyllidoli?

'Cyllidoli' yw rôl gynyddol cymhellion ariannol, marchnadoedd ariannol a sefydliadau ariannol yng ngweithrediad yr economi. Yn achos gwasanaethau cyhoeddus, mae'n golygu modelau perchnogaeth breifat sy'n cael eu hariannu gan ddyled ac yn blaenoriaethu enillion cyfranddalwyr yn hytrach na chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o safon a gwerth i drethdalwyr. Yma, mae costau (gan gynnwys cyflogau, amodau gwaith diogel a swm y dreth a delir) yn cael eu lleihau i wneud yr elw mwyaf posibl. Mae asedau'n aml yn cael eu gwerthu neu eu morgeisio i ariannu twf cyflym a mwy o daliadau i gyfranddalwyr, gan adael darparwyr gwasanaethau yn agored i chwalfa a gorfod cau.

Mae nifer cynyddol o ddarparwyr gofal plant a gofal cymdeithasol preifat mawr yn y DU yn cael eu hariannu gan ecwiti preifat, ac mae pryderon yn cynyddu am yr effaith ar y costau, safon y gofal a'r amodau gwaith.

Gofal cymdeithasol i oedolion

Yn Lloegr, yr ateb polisi a gyflwynwyd gan **Public Services International** i roi terfyn ar gyllidoli gofal cymdeithasol yw gwneud gofal cymdeithasol yn eiddo cyhoeddus. Mae'n ychwanegu, 'Lle nad yw hyn yn bosibl, yna mae'n rhaid dod o hyd i ffyrdd eraill o dynnu elw allan o ofal. Rheoleiddio ar gyfer safon y gofal, lefelau staffio a thryloywder.'[111]

Mae **TUC yr Alban** yn annog llywodraeth yr Alban i seilio cynllun y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol arfaethedig – diwygiad mawr a fyddai'n gwneud Gweinidogion yr Alban (yn hytrach na chynghorau lleol) yn uniongyrchol gyfrifol am ofal cymdeithasol i oedolion – ar wasanaeth cyhoeddus nid-er-elw a ddarperir trwy awdurdodau lleol ac y mae ynddo rôl barhaus ar gyfer y sector gwirfoddol.[112]

Yn yr un modd, mae **UNSAIN Cymru** yn gwneud achos busnes dros i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol ar gyfer Cymru gael ei ddarparu'n gyhoeddus, gan nodi 'os caniateir i'r model marchnad [cyfredol] hwn barhau, bydd tâl gweithwyr gofal yn parhau i fod yn annigonol ac ni fydd diwedd ar y pwysau ar gwmnïau ar y lefel gyflenwi i symud oddi wrth fodelau darparu cost isel'.[113]

Gofal plant

Mae cynnig y **Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus** ac **Achub y Plant** ar sefydlu Gwarant Gofal Plant yn Lloegr yn cynnwys gosod terfynau ar lefelau derbyniol o ddyledion i ddarparwyr.[114] Gallai hyn, er enghraifft, olygu bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan gryfach mewn perthynas â mynnu bod darparwyr yn bodloni meini prawf, gan gynnwys terfynau ar golledion neu gymarebau dyled i gyfanswm asedau, er mwyn cael cyllid gan y llywodraeth.

3. Sicrhau gwell cyflog a hawliau i weithwyr gofal cyflogedig

Rhaid i bob gweithiwr gofal cyflogedig ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant gael **ei gydnabod a'i wobrwyo'n briodol trwy gyflog teg a gwaith teilwng**, ynghyd â chael ei barchu o ran ei hawl i gymryd rhan mewn prosesau **cydfargeinio**.

Gan gydnabod gwendidau penodol **gweithwyr gofal mudol**, mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a chamfanteisio ledled pob lleoliad gofal, gan gynnwys cartrefi preifat.

BLWCH 6: STRATEGAETH ARFAETHEDIG Y TUC AR GYFER Y GWEITHLU GOFAL

Mae'r **TUC** wedi pennu strategaeth gweithlu gofal gynhwysfawr ar gyfer Lloegr a fyddai'n cael ei datblygu gydag undebau llafur a gweithwyr gofal.[115] Byddai'r strategaeth hon yn seiliedig ar set o flociau adeiladu hollbwysig:

- **Clywed a gwerthfawrogi lleisiau gweithwyr**, gan gynnwys trwy drefniadau cydfargeinio sectoraidd a thrwy greu Fforymau Partneriaeth Cenedlaethol mewn gofal cymdeithasol a gofal plant.
- **Tâl ac amodau teilwng i bob gweithiwr gofal** trwy gytundeb sectoraidd a drafodir ar y cyd ar gyflog teg ac amodau gwaith teilwng, isafswm cyflog sectoraidd newydd o £15 yr awr, tâl salwch, contractau diogel a thaliad llawn am yr holl amser a weithir.
- **Sgiliau, hyfforddiant a llwybrau dilyniant**, gyda fframweithiau hyfforddi a drafodir yn genedlaethol i sicrhau cysondeb a safon.
- **Diogelu iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr gofal**, gan gynnwys trwy sicrhau bod lefelau staffio yn seiliedig ar anghenion gofal ac addysg ac nid ar gymarebau mympwyol.

BLWCH 7: CAEL GWARED AR EITHRIAD Y GWEITHIWR TEULU – BUDDUGOLIAETH BWYSIG YN DILYN YMGYRCH[116]

Yn dilyn ymgyrch hir ond llwyddiannus dan arweiniad **Anti-Slavery International**, **yr Anti Trafficking and Labour Exploitation Unit (ATLEU)**, **Focus on Labour Exploitation (FLEX)**, **IWGB Nannies & Au Pairs Branch**, **Kalayaan**, **Nanny Solidarity Network**, **The Voice of Domestic Workers**, a'r **Women's Budget Group**, gyda chefnogaeth eraill, mae llywodraeth y DU wedi cymryd camau i gael gwared ar Eithriad y Gweithiwr Teulu o Reoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Roedd yr eithriad yn galluogi cyflogwyr i drin gweithwyr domestig a gweithwyr gofal plant a oedd yn cyd-fyw â'r teulu fel 'aelodau o'r teulu', ac yn golygu eu bod felly'n osgoi talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, neu unrhyw gyflog o gwbl, iddynt. Am sawl blwyddyn, roedd hyn yn cynrychioli bwlch a olygodd bod gweithwyr mudol benywaidd yn destun camfanteisio.

4. Atgyfnerthu nawdd cymdeithasol

Dylai unrhyw ddiwygiad i nawdd cymdeithasol fod â **thegwch a pharch** yn ganolog iddo ar gyfer y rhai y mae arnynt angen cymorth, a dylai fod ag **ymrwymiad i gydnabod nawdd cymdeithasol fel seilwaith hanfodol** sy'n anelu at sicrhau bod pawb yn gallu byw bywyd urddasol sy'n rhydd o dlodi. Cyfrifoldeb llywodraethau yw sicrhau nad oes neb yn profi caledi ariannol oherwydd y gofal y maent yn ei ddarparu neu y mae arnynt ei angen, neu oherwydd eu bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu ofal plant.

Dylai llywodraeth y DU gyflwyno **cynnydd sylweddol a pharhaol** i daliadau nawdd cymdeithasol i unioni effaith niweidiol torri a rhewi budd-daliadau, a sicrhau gwell amddiffyniad i bawb sydd mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi. I rieni a gofalwyr di-dâl, er enghraifft, mae hyn yn golygu cynyddu lefel y Budd-dal Plant a'r Lwfans Gofalwr (y budd-dal isaf o'i fath ar £76.75 yr wythnos).

BLWCH 8: YR YMGYRCH GWARANT HANFODION (THE ESSENTIALS GUARANTEE)

Mae Oxfam yn cefnogi ymgyrch **Sefydliad Joseph Rowntree** ac **Ymddiriedolaeth Trussell** sy'n galw ar lywodraeth y DU i gyflwyno Gwarant Hanfodion.[117] Byddai'r Warant Hanfodion yn ymgorffori yn ein system nawdd cymdeithasol yr egwyddor, y mae iddi gefnogaeth eang, y dylai Credyd Cynhwysol o leiaf amddiffyn pobl rhag gorfod mynd heb hanfodion megis bwyd, cyfleustodau a nwyddau cartref hanfodol.

BLWCH 9: DILEU'R CYFYNGIAD DAU BLENTYN A'R CAP AR FUDD-DALIADAU

Mae Oxfam yn cefnogi galwadau gan bartneriaid a chlymbleidiau, gan gynnwys y **Glymblaid Dileu Tlodi Plant**, i ddileu'r cyfyngiad dau blentyn, sy'n cyfyngu budd-dal plant sy'n dibynnu ar brawf modd i'r ddau blentyn cyntaf mewn teulu yn unig, gan effeithio ar 1.5 miliwn o blant ledled y DU. Byddai dileu'r cyfyngiad dau blentyn yn costio £1.3 biliwn y flwyddyn, a byddai'n codi 250,000 o blant allan o dlodi ar unwaith, gan ei gwneud y ffordd fwyaf costeffeithiol o leihau tlodi plant.[118]

Mae Oxfam hefyd yn cefnogi galwadau ar i lywodraeth y DU gael gwared ar y cap ar fudd-daliadau. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfanswm y cymorth y gall aelwydydd o oedran gweithio ei gael gan nawdd cymdeithasol. Byddai dileu'r cap ar fudd-daliadau yn costio tua £250 miliwn y flwyddyn, a byddai'n sicrhau lleihad sylweddol mewn caledi i'r 250,000 o blant sy'n byw mewn teuluoedd y mae'r cap yn effeithio arnynt.[119]

Yn 2021, defnyddiodd llywodraeth yr Alban ei phwerau nawdd cymdeithasol datganoledig i gyflwyno Taliad Plant yr Alban *(Scottish Child Payment)*, sef taliad wythnosol o £25 am bob plentyn dan un ar bymtheg oed mewn teuluoedd incwm isel, a hynny heb fod yna unrhyw gyfyngiad ar nifer y plant mewn teulu a all gael y taliad.[120] Dywed llywodraeth yr Alban y bydd y taliad yn codi'n unol â chwyddiant i £26.70 o fis Ebrill 2024.[121] Fodd bynnag, oherwydd ofnau y gellid peidio â chyflawni targedau tlodi plant statudol 2030 yr Alban o hyd, roedd ymgyrchwyr wedi galw am godi'r taliad i £30 yr wythnos yn 2024-25, ar lwybr i gyrraedd £40 erbyn diwedd Senedd yr Alban yn 2026.[122]

Dylai'r **meini prawf cymhwyster** gael eu hadolygu i sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf,[123] ond hefyd i alluogi hyblygrwydd fel y gall pobl â chyfrifoldebau gofalu di-dâl ymgymryd â gwaith am dâl heb golli cymorth ariannol hanfodol trwy nawdd cymdeithasol.

BLWCH 10: DIWYGIO LWFANS GOFALWR

Mae Oxfam yn cefnogi galwadau gan bartneriaid a chynghreiriaid, gan gynnwys y **Gynghrair Tlodi Gofalwyr**, ar i lywodraeth y DU ddiwygio'r Lwfans Gofalwr (y tu hwnt i gynyddu ei lefel). Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad llawn o reolau cymhwysedd fel y gall gofalwyr barhau i ddarparu gofal di-dâl ar yr un pryd â gofalu am eu hiechyd, eu llesiant a'u sicrwydd ariannol eu hunain.
- Codi'r terfyn enillion ar gyfer Lwfans Gofalwr, a chysylltu hyn â chynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn y dyfodol.[124]

Yn yr Alban yn 2018 cyflwynodd llywodraeth yr Alban yr Atodiad Lwfans Gofalwr, sef cyfandaliad ychwanegol a delir ddwywaith y flwyddyn (cyfanswm gwerth £577.20 yn 2024) i ofalwyr sy'n cael Lwfans Gofalwr y DU gyfan. O 2024, bydd hawl datganoledig newydd, o'r enw Taliad Cymorth i Ofalwyr, yn dechrau disodli'r Lwfans Gofalwr yn yr Alban yn raddol, a bydd cymhwysedd hefyd yn cael ei estyn i ofalwyr mewn addysg lawn-amser. **Er bod hwn yn gam cyntaf i'w groesawu, mae newidiadau sylweddol eraill yn ofynnol, gan gynnwys cynyddu gwerth y Taliad yn sylweddol ac ehangu cymhwysedd ymhellach.**

5. Sicrhau cymorth i'r rhai sy'n cyfuno gofal di-dâl a gwaith am dâl

Mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i'w gwneud yn haws i'r rhai a chanddynt gyfrifoldebau gofalu di-dâl gael mynediad i waith am dâl, i ddychwelyd iddo neu i aros ynddo, gan gynnwys cynyddu eu horiau gwaith os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yn gyntaf, dylai **hawliau cyflogaeth** gael eu hatgyfnerthu fel y gall pobl gyfuno cyfrifoldebau gofalu â gwaith am dâl yn haws.

BLWCH 11: ATGYFNERTHU HAWLIAU CYFLOGAETH – SUT OLWG A FYDDAI AR HYN?

I'w gwneud yn haws i ofalwyr gyfuno gofal di-dâl a gwaith am dâl, dylai llywodraeth y DU gyflwyno'r canlynol:

- Yr **hawl diofyn i weithio'n hyblyg**, trwy hawl i weithio'n hyblyg o'r diwrnod cyntaf mewn swydd. Byddai hyn yn symud gweithio'n hyblyg i fod yn norm, a hynny gydag eithriadau mwy cyfyngedig pan fo busnes yn gallu profi angen gwirioneddol i wrthod gweithio'n hyblyg.[125]
- **Absenoldeb gofalwr â thâl** (yn dilyn cyflwyno absenoldeb di-dâl i ofalwyr), yn unol â chynnig Sefydliad Joseph Rowntree ar gyfer Tâl Gofalwr Statudol newydd.[126]

Yn ail, dylai **rhaglenni cymorth cyflogadwyedd wedi'u teilwra ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** gael eu rhoi ar waith, ynghyd ag ymyraethau personol a thargededig i gefnogi'r rhai â chyfrifoldebau gofalu di-dâl (yn rhieni a gofalwyr di-dâl fel ei gilydd) sy'n dymuno cael gwaith cyflogedig teilwng, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd hyfforddi ac addysgol.[127]

Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau gwell **cefnogaeth i rieni a gwarcheidwaid plant, a hyrwyddo ailddosbarthiad mwy cyfartal o gyfrifoldebau gofalu** ar draws y rhywiau.

6. Mesur yr hyn sy'n bwysig

Mae symud i economi gofal ffeministaidd yn golygu symud y tu hwnt i fetrigau traddodiadol o ran pennu'r hyn sy'n werthfawr i gymdeithas – mae'r rhain yn cynnwys Cynnyrch Domestig Gros yn benodol, sy'n canolbwyntio ar dwf ac nad yw'n talu unrhyw sylw i ba *fath* o dwf, ym mha rannau o'r economi, y modd y mae'n cael ei gyflawni, a beth yw'r costau. Mae Cynnyrch Domestig Gros yn diystyru gwerth gofal di-dâl a gwaith domestig i'r economi.

Dylid tynnu Cynnyrch Domestig Gros o'i safle dominyddol fel y mesur allweddol o gynnydd economaidd er mwyn symud tuag at fetrigau mwy cynhwysol.[128] Mae yna gonsensws yn tyfu ledled y byd yn hyn o beth, fel y dangosir gan agenda *Beyond GDP* y Cenhedloedd Unedig.[129] Yn y DU, er enghraifft, mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol** yn arloesi dau fetrig newydd i roi mesur mwy cywir o gynnydd economaidd, a hynny trwy ystyried yr effeithiau negyddol ar bobl a'r amgylchedd a achosir gan dwf Cynnyrch Domestig Gros.[130] Mae gan lywodraeth y DU y cyfle i adeiladu ar waith yr SYG i fesur gwerth gofal di-dâl ac i gydnabod ei fod yn ganolog i'n cymdeithas a'n heconomi.

BLWCH 12: YR ALBAN – CANLYNIAD CENEDLAETHOL AR OFAL NEWYDD

Mae llywodraeth yr Alban yn dweud mai 'prif flaenoriaeth' yw'r newid i 'economi llesiant' sy'n diwallu anghenion sylfaenol pawb ac yn gwella iechyd a llesiant torfol.[131] Nod yr Alban yw cyflawni hyn trwy ei Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, sy'n cynnwys set o Ganlyniadau Cenedlaethol.

Yn rhan o'r adolygiad parhaus o'r Canlyniadau, mae ymgyrch yr Alban, sef **A Scotland that Cares** – sy'n cael ei harwain gan Oxfam Scotland, Carers Scotland, Ymddiriedolaeth Gofalwyr yr Alban, Scottish Care, One Parent Families Scotland, Women's Budget Group yr Alban a Phrifysgol Gorllewin yr Alban, a'i chefnogi gan fwy na 60 o sefydliadau eraill – yn galw ar Weinidogion yr Alban i fabwysiadu Canlyniad Cenedlaethol ar Ofal newydd i fynd i'r afael â'r iselbrisio dwfn a hirsefydlog yn achos gofal.[132] Dros amser, bydd Canlyniad Cenedlaethol penodedig yn darparu ffocws ar gyfer gweithredu polisi a gwariant newydd a pharhaus ar lefelau cenedlaethol a lleol.

Ar lefel fwy diriaethol, gall llywodraeth y DU estyn ei gofyniad i fusnesau fesur ac adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau i fesur bylchau cyflog ethnigrwydd, anabledd ac LHDTCRhA+ hefyd. Wrth wneud hynny, rhaid i gyflogwyr wedyn gael eu gorfodi i weithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a nodwyd o ran cyfleoedd a chyflogau yn y gweithle. Gellid mynd â hyn ymhellach trwy wneud gofal yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,[133] ac estyn y gofyniad adrodd ar fylchau cyflog i gynnwys gofalwyr.

4.2. ADRODD STORI NEWYDD AM OFAL

Mae newid polisi trawsnewidiol yn allweddol i gyflawni economi sy'n canolbwyntio ar ofal ac yn rhoi gwerth ar lesiant a chydraddoldeb yn hytrach na thwf ac echdynnu. Ond ni all hyn ddigwydd oni bai ein bod yn symud i ffwrdd oddi wrth y naratifau echdynnol, rhywiaethol, hiliol, dosbarthol, ableddol a phatriarchaidd sy'n cadw gofal yn anweledig ac yn ei gymryd yn ganiataol. **Mae'n bryd ysgrifennu stori newydd am ofal – un sy'n rhoi gwerth ar bob gofal am ei fod yn rhan hanfodol o'n cymdeithas a'n heconomi, ac yn llesiant a chydgyfrifoldeb y mae'n rhaid buddsoddi'n ddigonol ynddo ac y mae'n rhaid iddo gael ei gefnogi, yn enwedig gan lywodraethau.**

> **"Nid yw symud naratifau dwfn yn dasg hawdd."**

Mae naratifau yn straeon syml sy'n cael eu rhannu ar draws diwylliannau sy'n llywio ein canfyddiadau unigol a chyfunol o realiti a'r hyn sy'n bosibl. Mae'n rhaid i newid mewn naratif ddigwydd ymhlith llywodraethau a sefydliadau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am bolisi cyhoeddus a gwariant, yn ogystal ag ar gyfer pobl a'r gymdeithas ehangach. Yn wir, mae cefnogaeth a gweithredu cyhoeddus a chymunedol yn hanfodol i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, i wthio am newid mewn polisïau ac i gadw llywodraethau'n atebol.[134]

Nid yw symud naratifau dwfn yn dasg hawdd. Mae'n daith sy'n gofyn i bobl a chymunedau gwestiynu'r normau cyfredol, a dod o hyd i ffyrdd newydd a hollol wahanol o feddwl am ein byd a'n cymdeithas. Mae hefyd **yn gofyn am darfu ar y systemau pŵer a braint presennol**.

O'r herwydd, pa un a eir ati i geisio newid naratifau trwy adrodd straeon, llunio,[135] neu drwy offer a dulliau eraill,[136] mae hon yn daith sy'n gofyn am amser, dyfalbarhad, a gwaith cydweithredol parhaus rhwng cymunedau, gweithredwyr, sefydliadau a mudiadau sy'n eiriol dros newid.[137] Fel y mae Isabel Crabtree-Condor, yr economegydd gwleidyddol, yn esbonio: **'Mae'r gwaith hwn y tu hwnt i gwmpas un sefydliad neu sector. I symud neu newid naratifau cyndyn sy'n cadw'r sefyllfa fel y mae, bydd cydweithredu a gweithredu creadigol ar y cyd, a hynny ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, yn ofynnol.'**[138]

BLWCH 13: AIL-LUNIO NARATIFAU AR OFAL YN Y DU[139]

Yn 2022–23, aeth Oxfam ati, mewn partneriaeth â **The Answer**, a gyda chymorth Grŵp Llywio Ymgynghorol o bartneriaid (Carers UK, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Sefydliad Joseph Rowntree, Women's Budget Group, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru a'r TUC), i gynnal ymchwil ar ail-lunio naratifau ar ofal yn y DU. Lluniodd y prosiect becyn cymorth ac iddo argymhellion a all helpu sefydliadau cymdeithas sifil ac eiriolwyr gofal i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd am bwysigrwydd hanfodol pob gofal a'r angen brys i'w werthfawrogi'n iawn, gan osod y cefndir ar gyfer galwadau i weithredu ar newid polisi.

4.3. SYMUD Y PŴER AR GYFER DYLANWADU

Er mwyn i newid trawsnewidiol – boed ar lefel polisi neu, yn fwy eang, ar lefel naratif – ddigwydd, mae hefyd yn angenrheidiol **symud pŵer** i'r cymunedau y mae iselbrisio gofal yn effeithio arnynt, ac i'r grwpiau a'r mudiadau hawliau

gofalwyr a gweithwyr, gwrth-dlodi, rhywedd, anabledd, a chydraddoldeb hiliol sydd, ar y cyd, yn mynnu gwell hawliau i ofalwyr a mwy o fuddsoddiad mewn gofal.

Yn Oxfam, rydym yn gweithio mewn undod a phartneriaeth â'r sefydliadau, mudiadau, clymbleidiau a gweithredwyr sy'n ysgogi newid – o grwpiau llawr gwlad i sefydliadau lleol a chenedlaethol a rhwydweithiau rhyngwladol. Ledled Cymru, yr Alban a Lloegr, rydym yn aelodau o glymbleidiau ac yn cefnogi ystod o ymgyrchoedd (amlygir rhai yn yr adroddiad hwn) i alw am newid polisi; ac rydym hefyd, trwy roi grantiau, yn cefnogi gwaith a arweinir gan bartneriaid a chynghreiriaid ac sy'n cynnwys meithrin galluedd, ymgyrchoedd ac ymchwil ar gyfer dylanwadu (gweler, er enghraifft, Blwch 14).

Wrth wraidd y gwaith hwn y mae ein hymrwymiad i ymuno ag eraill, gan **barchu eu llais a'u gwybodaeth, i sicrhau eu bod yn parhau i fod ar y blaen** o ran yr ymdrechion dros newid, a myfyrio gyda nhw ar ein cyfraniad penodol a'n gwerth ychwanegol. **Os ydym am fynd i'r afael â systemau pŵer sy'n cadw gofal yn anweledig, rhaid i ni herio ein pŵer ein hunain a pharhau i fod yn atebol**.

BLWCH 14: Y BARTNERIAETH Â'R CIVIC POWER FUND[140]

Yn 2023, partnerodd Oxfam GB â'r **Civic Power Fund**, cronfa newydd sydd wedi'i neilltuo'n benodol i gefnogi trefniadaeth gymunedol ar lawr gwlad. Trwy'r cydweithio hwn, byddwn yn cefnogi gwaith y Civic Power Fund gyda grwpiau sy'n cael eu hadeiladu gan gymunedau y mae anghyfiawnder a thlodi yn effeithio arnynt – hyn eto'n ganlyniad i iselbrisio gofal – i gyfrannu at gynyddu eu pŵer a'u gallu i ddylanwadu ar newid ar lefel leol neu genedlaethol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Civic Power Fund ac eraill i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol a chadarn o symud pŵer i gymunedau a grwpiau cymunedol, gan sicrhau bod ein gwaith dylanwadu ar y cyd yn parhau i fod yn gynhwysol.

4.4. CASGLIAD

“Mae angen penderfyniadau polisi beiddgar i fynd y tu hwnt i atebion byrdymor ac arwynebol, a chreu newid a chyfiawnder cymdeithasol dyfnach.”

Mae'r weledigaeth o adeiladu economi ofalgar ffeministaidd sy'n canolbwyntio ar ofal fel cyfrifoldeb ar y cyd a lles cymdeithasol hanfodol yn sicr yn un uchelgeisiol. Ond mae'n un sy'n ofynnol ar frys i fynd i'r afael ag anghyfiawnder cynyddol tlodi gofalwyr, ac i symud, unwaith ac am byth, y systemau pŵer sydd o fudd i rai yn unig.

Bydd y trawsnewid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i **lywodraethau ledled Prydain ddefnyddio eu pwerau** i weithredu newid polisi hirdymor, a chyfeirio newid dwfn a pharhaol yn safbwyntiau a naratifau'r cyhoedd a safbwyntiau a naratifau sefydliadol sy'n cadw gofal yn anweledig a heb ei brisio ddigon. Mae angen penderfyniadau polisi beiddgar i fynd y tu hwnt i atebion byrdymor ac arwynebol, a chreu newid a chyfiawnder cymdeithasol dyfnach.

Nid yw cymunedau a'r gymdeithas ehangach yn wylwyr goddefol yn y broses hon – dylent gael y pŵer i chwarae rhan allweddol yn y broses o ailysgrifennu'r stori ar ofal a newid naratifau niweidiol.

Yn y pen draw, bydd ymrwymiad ac arweiniad ewyllys wleidyddol, a newid yn y naratifau sy'n ymwneud â gofal yn allweddol i ysgogi newid polisi trawsnewidiol ar y dyfnder a'r raddfa gofynnol.

Safbwyntiau o bob rhan o gymdeithas sifil

Ymddiriedolaeth y Gofalwyr – Dominic Carter, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus

Nid yw'r berthynas ofalgar sy'n bodoli i filiynau ledled y DU yn gwahaniaethu rhwng yr hen a'r ifanc. Mae'n digwydd ym mhob cymuned ac ym mhob lleoliad diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol. Ni ellir dweud yr un peth am brofiad gofalwyr di-dâl na'r cymorth sydd ar gael i'w hamddiffyn rhag tlodi. Ymhell cyn yr argyfwng costau byw, roedd daearyddiaeth, rhywedd, ethnigrwydd ac oedran i gyd yn gysylltiedig â diffyg sicrwydd ariannol i ofalwyr di-dâl, a'r straen anghyffredin a ddaw yn ei sgil. Mae'r hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau'r tegwch y mae gofalwyr di-dâl yn ei haeddu ymhell o fod yn ddigon. Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, ochr yn ochr â'r dwsinau o sefydliadau gofalwyr lleol yn ein rhwydwaith, yn benderfynol na ddylai unrhyw ofalwr gael ei wthio i dlodi neu anfantais ariannol oherwydd ei rôl ofalu. **Mae gofalwyr di-dâl sy'n wynebu allgáu cymdeithasol yn dweud wrthym fod eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu gan y llywodraeth. Mae'n bwysig bod y rhai sydd mewn grym yn cael eu hatgoffa o'r brys i weithredu ar y caledi a brofir gan gynifer.**

Carers UK – Tamara Sandoul, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

Mae gofalwyr di-dâl yn helpu i gadw cymdeithas ynghyd, gan ddarparu cymorth hanfodol i aelodau o'r teulu, ffrindiau a chymdogion sy'n hŷn, yn anabl neu â salwch cronig. Trwy'r gwaith hwn, maent yn cyfrannu £162 biliwn y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae yna gost i'r cymorth hwn: mae iechyd, llesiant a chyllid y gofalwyr di-dâl hyn yn aml yn dioddef, sydd wedyn yn golygu goblygiadau i'r GIG, yr economi a chymdeithas yn gyffredinol. Byddai system nawdd cymdeithasol wedi'i chynllunio'n dda ac sy'n darparu cymorth digonol yn atal gofalwyr rhag syrthio i dlodi o ganlyniad i'w rôl. Mae gofal cymdeithasol o safon dda sy'n darparu gofal amgen ac sy'n caniatáu egwyliau yn allweddol i gynnal iechyd a llesiant y gofalwyr eu hunain, yn ogystal â'u galluogi i barhau â gwaith am dâl. Mae hawliau cyflogaeth cadarn a chefnogaeth i ddychwelyd i waith am dâl hefyd yn allweddol i alluogi mwy o ofalwyr i ddal eu gafael mewn swyddi, yn ogystal â'u sgiliau yn y gweithle, a hynny yn ystod eu rôl ofalu ac wedi iddi ddod i ben. Ynghyd ag aelodau'r Gynghrair Tlodi Gofalwyr, mae Carers UK yn ymgyrchu i atal a lleihau achosion o dlodi gofalwyr.

Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant – Sophie Howes, Pennaeth Polisi

Mae gofalu am blant yn rhan arferol o fywyd teuluol. Ond, yn rhy aml, mae rhieni wedi'u dal yn y canol – yn methu byw ar y lefelau budd-daliadau cyfredol, ond costau'r gofal plant y mae arnynt ei angen i wneud gwaith am dâl yn llawer rhy uchel. Mae arnom angen system nawdd cymdeithasol sy'n sicrhau bod gan bob teulu ddigon i fyw arno ac sy'n cefnogi pob rhiant y mae arno ei angen i gael mynediad at ofal plant da, fforddiadwy. **Gyda 4 miliwn o blant eisoes mewn tlodi, ni all llunwyr polisi fforddio dim ond codi eu hysgwyddau.**

Y Glymblaid Addysg Gynnar a Gofal Plant – Sarah Ronan, Cyfarwyddwr

Am gyfnod rhy hir o lawer, mae llywodraethau olynol wedi trin gofal plant megis mater i aelwydydd yn hytrach na blaenoriaeth economaidd ac angen dynol cyffredinol. O'r herwydd, rydym wedi cael model addysg gynnar a gofal plant sy'n gwaethygu anghydraddoldeb addysgol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r ffaith nad yw gofal plant yn cael ei ariannu ddigon wedi arwain at gyflog isel ymhlith gweithlu'r blynyddoedd cynnar, at gau lleoliadau gofal plant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac at gloi plant ag anghenion addysgol arbennig allan o addysg a gofal cynnar hanfodol. Yn y cyfamser, nid yw'r traean tlotaf o deuluoedd yn cael unrhyw fudd uniongyrchol o gynllun gofal plant presennol y llywodraeth, ac mae'r rhai sy'n aros gartref i ofalu am eu plant yn cael eu diystyru gan nad ydynt yn cyfrannu at yr allbwn economaidd. Y rheswm sylfaenol dros hyn yw methiant ledled cymdeithas i roi gwerth ar y rhai sy'n gofalu. Ond mae yna hefyd fethiant i roi gwerth ar y rhai y mae arnynt angen y gofal hwnnw, megis yr ifanc, yr anabl a'r henoed. Yn syml, **mae gennym economi sy'n meddwl mai dim ond os gallwch weithio y mae'n werth buddsoddi ynoch. Rydym yn llwyr gefnogi'r alwad am fwy o fuddsoddiad yn y seilwaith gofal, ochr yn ochr â gwell cyflogau ac amodau i'r rhai sy'n gweithio mewn unrhyw broffesiwn sy'n gysylltiedig â gofal.**

Economic Change Unit – Tom Railton, Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth

Er mwyn torri'r cysylltiad rhwng gofal ac anghydraddoldeb a sicrhau y rhoddir y gwerth priodol ar y gwaith y mae gofalwyr yn ei wneud yn ein cymdeithas, rhaid cael newid economaidd strwythurol. Mae'n iawn tynnu sylw at y rôl y mae'r system drethi yn ei chwarae o ran ategu'r anghydraddoldebau hyn, ynghyd â galw am ddiwygio i ddosbarthu cyfoeth yn decach a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Minority Ethnic Carers of People Project (MECOPP) – Margaret Chiwanza, Prif Swyddog Gweithredol

Mae gofalwyr yn aml yn wynebu rhwystrau a heriau croestoriadol yn eu rôl. Mae gofalwyr benywaidd du ac ethnig leiafrifol yn wynebu anawsterau ariannol sylweddol, ac mae anghydraddoldeb wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y sector gofal. Mae'n ddigalon gweld bod gofal di-dâl yn cael ei iselbrisio, er gwaethaf cyfrannu £13.1 biliwn i economi'r Alban. Yn ogystal â diffyg cefnogaeth ddiwylliannol ac ieithyddol briodol ledled y wlad, mae yna hefyd ddiffyg cefnogaeth gyson, ac mae methiant yn bodoli mewn llawer o strategaethau gofalwyr lleol o ran blaenoriaethu'r gwaith o leihau rhwystrau i ofalwyr du ac ethnig leiafrifol. Mae hiliaeth, ablaeth a rhywiaeth systemig mewn cymdeithas yn cyfrannu at y baich gofal sy'n disgyn ar grwpiau ymylol, a lle mae yna ragdybiaeth yn bodoli ei fod yn normal iddynt. Mae'n hollbwysig mynd i'r afael â'r materion hyn yn ddi-oed. **Mae gofalwyr yn chwarae rhan gynyddol hanfodol yn ein cymdeithas, ac os byddwn yn peidio â mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau systemig sy'n bodoli ym maes gofal, dim ond gwaethygu y byddant. Bydd canlyniad hyn yn andwyol i lesiant y rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys yn achos eu hiechyd ac yn ariannol. Rhaid i ni gydnabod gwerth gofal a chymryd camau i leihau ac ailddosbarthu gofal di-dâl.**

Nanny Solidarity Network – Sara Mendes, Cydlynydd Ymgyrchoedd

Mae unigoleiddio gofal yn un o bileri camfanteisio cyfalafol. Roedd y broses ehangu drefedigaethol Ewropeaidd, a fu'n sylfaen i'r system hon o gamfanteisio, wedi dinistrio ffurfiau ar hunanreoli, trefnu a chyfunoli gofal a geid mewn sawl cymuned. Mewn mannau lle'r oedd pawb yn gofalu am ei gilydd, roedd yr henoed, plant, a'r rhai a oedd yn sâl yn gyfrifoldeb i bawb. Yn lle hynny, roedd y gwladychwyr wedi caethiwo pobl a phennu pwy oedd â'r hawl i ofal. Roedd menywod a phobl dduon a wnaed yn gaethweision yn darparu gofal a gwaith domestig di-dâl fel y gallai dynion gynhyrchu cyfoeth. Roedd gweithwyr domestig mudol (y camfanteisid arnynt) yn cyflawni'r gwaith gofalu (am dâl annigonol) fel y gallai menywod cyfoethog weithio ac i ryddhau dynion o'u cyfrifoldebau gofalu. **Mae rhesymeg sylfaenol y system hon yn parhau hyd heddiw. Rydym yn ei weld yn absenoldeb gorfodi isafswm cyflog, uchafswm oriau gwaith, neu'r hawl i gydfargeinio. Mae'n bryd gofyn pryd y byddwn yn cofleidio system lle mae pawb yn cael gofal.**

One Parent Families Scotland – Satwat Rehman, Prif Swyddog Gweithredol

Yng ngwead llesiant cymdeithasol, mae gofal – am dâl a di-dâl – yn gweithredu fel yr edefyn aur sy'n ein clymu wrth ein gilydd. Ond mae llawer sy'n darparu ac yn profi gofal yn gaeth mewn tlodi a chaledi. Teuluoedd un rhiant yw chwarter yr holl deuluoedd yn yr Alban. Mae rhieni sengl, menywod yn bennaf, yn cyfuno rôl unig ofalwr ac enillydd cyflog ar gyfer eu plant, ac mae methu cyfuno adnoddau ag oedolyn arall yn golygu risgiau o galedi gwirioneddol. Mae un o bob tri phlentyn mewn teuluoedd un rhiant yn dlawd. Nid yw atebion cyfredol wedi gwneud mwy na lliniaru achosion uniongyrchol tlodi ymhlith gofalwyr cyflogedig a di-dâl. Mae'n ofynnol mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi gofalwyr: dibrisio gofal, iselbrisio sgiliau menywod a gweithwyr du ac ethnig leiafrifol, a'r farn mai dynion yw'r enillwyr cyflog. Mae mynd i'r afael â heriau gofal, tlodi ac anghydraddoldebau yn gofyn am bolisïau cynhwysfawr, cymorth cymdeithasol, a chydnabyddiaeth o'r brwydrau unigryw y mae gofalwyr yn eu hwynebu. **Mae polisi trawsnewidiol a newid yn y naratif yn angenrheidiol, ac mae'n bryd ysgrifennu stori newydd am ofal – un sy'n gwerthfawrogi pob gofal fel rhan hanfodol o'n cymdeithas a'n heconomi, rhan y dylid rhoi gwerth arni, buddsoddi ynddi a'i chefnogi.**

Ymddiriedolaeth Runnymede – Shabna Begum, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

Nid yw'r economi heddiw yn 'methu' pan fydd yn iselbrisio llafur gofal ac yn ei wneud yn anweledig; yn wir, fe'i cynlluniwyd i weithredu ar y telerau hynny. Mae pobl o liw yn aml yn profi min y gyllell o ran y diraddio a'r camfanteisio sy'n gysylltiedig â dibrisio gwaith gofal – am dâl a di-dâl fel ei gilydd, ac mae canlyniadau hyn wedi trosi i fod yn lefelau uwch nag erioed o dlodi a chaledi. Mae dadansoddiad croestoriadol cyfredol yn amlygu'r ffyrdd niferus a chymhleth y gall pobl fynd i sefyllfa lle maent yn ysgwyddo'r baich, ynghyd â'r ffaith mai menywod o liw sy'n aml yn cyflawni'r gwaith a amddifadir o statws a gwerth. Ond er gwaethaf digonedd o dystiolaeth o natur systematig y problemau hyn, mae yna normau cymdeithasol 'cyndyn' cryf sy'n gweithredu i unigoleiddio neu guddio'r problemau. **Nid yw'r system wedi torri; mae wedi'i rigio, ac felly ni fydd tincro ar yr ymylon yn ei thrwsio. Mae yna achos pwerus dros newid i economi ofalgar; un a fyddai'n ymwrthod â'r systemau hynny sy'n breinio elw yn lle pobl. Nid oes rhaid i ni 'freuddwydio' am economi amgen – mae yna gamau clir y gallwn eu cymryd tuag ati – a hynny ar unwaith.**

Single Parents Wellbeing – Rachel Brydon a Rachel Cule, Cyfarwyddwyr

Yn Single Parents Wellbeing, rydym yn gweld teuluoedd un rhiant yn wynebu heriau croestoriadol gofal, tlodi ac anghydraddoldebau bob dydd, heriau sy'n eu hamlygu eu hunain ar ffurf rhwystrau sy'n llesteirio llesiant ac iechyd cadarnhaol a mynediad at gyfleoedd ehangach. Mae'r problemau hyn nid yn unig yn rhwystro potensial unigolion ond hefyd yn golygu bod cylch o anfantais sy'n effeithio ar genedlaethau yn parhau'n ddiddiwedd. Mae Single Parents Wellbeing yn credu bod delio â'r heriau hyn ar lefel polisi a thrwy fynd i'r afael â chanfyddiad y cyhoedd o achosion sylfaenol annhegwch cymdeithasol nid yn unig yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, ond yn gam hanfodol tuag at ryddhau potensial cyfunol y rhai mewn rolau gofalu di-dâl, a'r rhai sy'n profi tlodi ac anghydraddoldebau. **Wrth gynyddu galluedd y rhai sydd fwyaf agored i niwed, a'r cyfleoedd ar eu cyfer, mae pawb mewn cymdeithas ar eu hennill.**

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru – Jessica Laimann, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

Mae'r pandemig wedi dangos i ni mai gofal yw asgwrn cefn ein heconomi. Mae pobl sy'n darparu gofal a chymorth i eraill, gan gynnwys rhieni, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu gofal plant a gofal cymdeithasol, yn ffurfio rhwydwaith anweledig sy'n dal ein cymdeithas ynghyd. Ac eto mae yna argyfwng gofal. Mae gofalwyr di-dâl yn brwydro, mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn gwthio menywod allan o waith ac i dlodi, ac mae'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant neu ofal cymdeithasol yn wynebu tâl ac amodau gwael, gyda llawer yn ymadael o ganlyniad. Mae iselbrisio gwaith a wnaed yn draddodiadol gan fenywod yn rhedeg fel cerrynt trwy hyn oll. Er bod yr heriau yn sylweddol, mae yna gyfleoedd enfawr hefyd. **Mae gwaith gofal yn ganolog i lesiant a chydnerthedd ein cymdeithas a'n heconomi. Mae pob un ohonom yn elwa os caiff ei werthfawrogi a'i flaenoriaethu mewn modd sy'n adlewyrchu ei bwysigrwydd.**

Yr Ymgyrch Gofalwn (WeCare) – Katy Styles, sylfaenydd a chadeirydd

